




# Ffermio Organig yng Nghymru

## 1998 • 2003

Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Partneriaeth Bwyd-Amaeth
Agri-Food Partnership

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

# Ffermio Organig yng Nghymru 1998-2003

Golygwyd ac ysgrifennwyd gan Nic Lampkin a Jane Powell, gyda chyfraniadau ychwanegol gan Elearnor Badham (LlCC), Rosie Boden (Canolfan Organig Cymru), Menna Davies (ADC), Nigel Elgar, Anne Evans, David Frost (ADAS), Robert Griffiths (LlCC), Roger Hitchings (EFRC), Andrew Jackson (Canolfan Organig Cymru), Andrew Jedwell, Iwan Wynne Jones, Philip Jones (Canolfan Organig Cymru), Bob Kennard, Tony Little (Canolfan Organig Cymru), Heather McCalman (IGER), Santiago Olmos (SAG), Susanne Padel (SAG), Neil Pearson (Canolfan Organig Cymru), Gwawr Price (ADC), Kevin Thomas (ADC), Carolyn Wacher (Canolfan Organig Cymru) a Richard Weller (IGER).

© Canolfan Organig Cymru 2003

Cynhyrchwyd a chyhoeddwyd gan Ganolfan Organig Cymru, Sefydliad Astudiaethau Gwledig, Prifysgol Cymru Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3AL. Ffôn. 01970 622248
www.organic.aber.ac.uk

Derbyniwyd gyda diolch gefnogaeth ariannol i gyhoeddi'r adroddiad hwn gan Gyswllt Ffermio, yr Undeb Ewropeaidd (EAGGF) Llywodraeth Cynulliad Cymru ac Awdurdod Datblygu Cymru.

Farming Connect is supported by the European Agriculture Guidance and Guarantee Fund of the European Union the Welsh Assembly Government, Welsh Development Agency/Agri-Food Partnership and other key agencies includig the Forestry Commission, Wales Touris Board,Countryside Council for Wales, Environment Agency Wales ELWa and the Welsh Local Government Association

Cefnogir Cyswllt Ffermio gan Gronfa Arweiniad a Gwarant Amaethyddol Ewropeaidd, or Undeb Ewropeaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru, Awdurdod Datblygu Cymru/Partneriaeth Bwyd-Amaeth ac asiantaethau allweddol eraill gan gynnwys y Comisiwn Coedwigaeth, Bwrdd Croeso Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, ELWa a Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Awdurdod Datblygu Cymru
Welsh Development Agency

Corff sy'n derbyn cyllid cyhoeddus yw Canolfan Organig Cymru sy'n gyfrifol am daenu gwybodaeth am fwyd a ffermio organig yng Nghymru. Mae'r Ganolfan yn cynnwys pum partner: ADAS Cymru, Sefydliad Ymchwil Tir Glas ac Amgylcheddol (IGER), Canolfan Ymchwil Elm Farm (EFRC), y Soil Association a Phrifysgol Cymru Aberystwyth.

ADAS WALES    IGER    Aberystwyth

Lluniau: John Harvey, WDA, Arvid Parry Jones, Jeremy Moore

Er i bob ymdrech gael ei gwneud i sicrhau cywirdeb yr adroddiad hwn, ni all Canolfan Organig Cymru na'i phartneriaid dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail yr wybodaeth a gynhwysir ynddo.

Argreffir yr adroddiad hwn ar bapur haen di-bren, diglorin o goedwigoedd cynaliadwy

Argraffwyd a Dyluniwyd gan Cambrian Printers Aberystwyth 01970 613021

AnReport_A4e copy 7/8/2003 10:57 AM Page 1

# Rhagair

*Gan Carwyn Jones AC, Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad*

Bu'r pum mlynedd ddiwethaf yn amser anodd i ffermio organig yng Nghymru. Cafwyd sawl llwyddiant a sawl anffawd, ond, at ei gilydd, mae'r sector wedi aros yn gryf gan barhau i ehangu. Dyma gyfnod pryd y mae Cymru wedi arwain y ffordd a chyda chefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru drwy fentrau megis Ffermio i'r Dyfodol, fe'i hystyrir erbyn hyn i fod ar y blaen o ran syniadaeth organig.

Derbynnir yn eang y gall ffermio organig gronni manteision sylweddol. Ymhlith y rhain ceir mwy o fioamrywiaeth, cynaliadwyedd cynhyrchu, defnyddio llai o gemegau, safonau uchel o ran lles anifeiliaid a manteision cymdeithasol-economaidd o ran lefel y llafur sydd ei hangen. Mae llawer iawn o ddefnyddwyr yn barod i dalu premiwm am fwyd sydd wedi'i gynhyrchu'n organig.

Dyma pam bod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi aros yn ymroddedig i ddatblygu ffermio organig gan ein bod yn credu bod ei dwf yn elfen sylfaenol wrth greu diwydiant amaethyddol sy'n gynaliadwy yn economaidd ac yn amgylcheddol. Rydym wedi rhoi yn ei le becyn cefnogaeth rhagorol gan gynnwys: grantiau ar gyfer trosi, stiwardiaeth, marchnata a phrosesu; cyngor organig di-dâl ar y fferm drwy Gyswllt Ffermio; rhwydwaith o ffermydd organig arddangos; a chyrchu cyfleoedd ag archfarchnadoedd i hyrwyddo a hybu'r cyflenwad o gynhyrchion organig a gynhyrchir yn lleol.

Ond efallai ein cyflawniad mwyaf arwyddocaol yw sefydlu Canolfan Organig i gefnogi ffermwyr organig drwy gydlynu'r hyfforddiant gorau posibl, mynediad i wybodaeth a chyngor ymarferol. Ers i bartneriaeth y Ganolfan ddechrau cydweithio dair blynedd yn ôl, maent wedi meithrin enw rhyngwladol o ran darparu cyngor uchel ei safon ar faterion organig.

Yn olaf, hoffwn bwysleisio'r angen i weld amaethyddiaeth organig a chonfensiynol yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd. Mae'n bwysig bod technegau gorau'r ddwy system yn cael eu defnyddio i sicrhau'r manteision mwyaf i ffermwyr, defnyddwyr a'r gymuned ehangach. Mae gan ffermio organig lawer iawn i'w gynnig yn y bartneriaeth hon a gobeithio y bydd yn parhau i ddatblygu ac ehangu yng Nghymru.





*Llun: LlCC*

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 1 |
| Datblygu Bwyd a Ffermio Organig yng Nghymru | 3 |
| Cynllun Gweithredu Sector Organig Cymru 1999 | 4 |
| Adolygiad y Cynulliad ar Ffermio Organig yng Nghymru 2002 | 5 |
| Cynllun Ffermio Organig Cymru | 6 |
| Y Cynllun Gweithredu a Chefnogaeth Polisi: cyflawniadau a mentrau newydd | 7 |
| Twf a Datblygiad y Farchnad | 9 |
| Cefnogi Marchnata Bwyd Organig | 10 |
| Cynhyrchu Organig yng Nghymru | 12 |
| Y Sector Cig Coch | 14 |
| Y Sector Llaeth | 16 |
| Y Sector Garddwriaethol | 18 |
| Canolfan Organig Cymru | 20 |
| Gwasanaethau Ymgynghorol | 22 |
| Grwpiau Trafod a Ffermydd Arddangos | 24 |
| Cyrsiau Hyfforddiant a Digwyddiadau | 26 |
| Ymchwil a Datblygu | 28 |
| Cyhoeddiadau | 30 |
| Llyfryddiaeth | 31 |
| Aelodaeth Grŵp Strategaeth Organig ac Is-grwpiau 2002/03 | 32 |


*Lluniau: John Harvey, PCA, Jeremy Moore*







# Datblygu Bwyd a Ffermio Organig yng Nghymru

Ym 1998 sefydlodd Ron Davies AS, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru ar y pryd, dri gweithgor i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer y sectorau llaeth, cig coch a ffermio organig yng Nghymru. Ar y pryd, un rhan o dair o un y cant yn unig o dir amaethyddol Cymru oedd yn cael ei ffermio'n organig. Felly, pleidlais hyder anferthol oedd sefydlu'r gweithgor a'r gefnogaeth a ddaeth yn ei sgil i'r cynllun gweithredu a ddatblygwyd ganddo, i botensial y sector organig i'r dyfodol.

Yn sgil cyhoeddi Cynllun Gweithredu'r Sector Organig ym mis Mawrth 1999, ailstrwythurwyd y gweithgor i ffurfio'r Grŵp Strategaeth Organig, un o bedwar grŵp strategaeth a phedwar grŵp rhanbarthol a ffurfiai Bartneriaeth Amaeth-Bwyd Cymru a wasanaethir ac sy'n derbyn arian gan Fwrdd Cyfarwyddwyr Bwyd ADC a oedd yn gyfrifol am lywio gweithredu cynlluniau gweithredu'r sector. Yn 2002, ffurfiwyd pumed grŵp strategaeth i ymdrin â garddwriaeth gydag is-grŵp garddwriaeth organig yn darparu dolen gefnogol i'r Grŵp Strategaeth Organig.

Yn ystod y pedwar mlynedd ers cyhoeddi'r cynllun gweithredu, cafwyd cynnydd sylweddol wrth ddatblygu'r sector organig yng Nghymru. Mae cynhyrchedd organig wedi cynyddu, mae grwpiau cynhyrchwyr organig a busnesau prosesu, dosbarthu a manwerthu sefydledig wedi ffynnu ac mae llawer iawn o fusnesau a mentrau newydd wedi'u sefydlu, gan ddod â mwy o amrywiaeth fusnes, gymdeithasol a diwylliannol i'r gymuned organig yng Nghymru.

Ond ni fu hyn heb ambell her, yn enwedig o ran yr anawsterau a wynebwyd gan gynhyrchwyr llaeth wrth gael hyd i farchnadoedd i laeth organig o ganlyniad i'r cynnydd dramatig yn y cyflenwad – dengys hyn yr angen am gynlluniau newydd i ymateb i sefyllfa ddeinamig, newidiol wrth i'r sector organig ddatblygu.

Fy mraint fu cadeirio'r gweithgor cyntaf wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu ac wedyn y Grŵp Strategaeth Organig o'r cychwyn cyntaf. Saif yr adroddiad hwn yn gofnod o lwyddiannau'r cynllun gweithredu, a'r asiantaethau sydd wedi cefnogi'i gyflwyno. Credaf ei fod yn gofnod i ymfalchïo ynddo ar ran pawb a fu'n ymwneud ag ef.



*Gareth Rowlands*
*Cadeirydd, Grŵp Strategaeth Organig, Partneriaeth Amaeth-Bwyd Cymru*



*Llun: ADC*

# Cynllun Gweithredu Sector Organig Cymru 1999

Cynllun gweithredu organig Cymru[1] a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 1999 oedd y cyntaf o'i fath yn y DU, yn dilyn yr enghreifftiau arloesol a gafwyd mewn gwledydd eraill megis Denmarc, Ffrainc, Norwy a Sweden yng nghanol ac ar ddiwedd y 1990au. Diben y cynllun oedd adnabod nodau ar gyfer datblygu'r sector organig yng Nghymru, y problemau a fyddai'n atal y nodau hyn rhag cael eu cyflawni a ffyrdd o ddatrys y problemau hyn. Prif nodau'r cynllun oedd:-

1. sefydlu swyddogaeth allweddol amaethyddiaeth organig mewn polisïau amaethyddol ac amgylcheddol yng Nghymru;
2. helaethu sector organig Cymru drwy gynyddu cynhyrchedd busnesau hen a newydd hyd at 10% o sector cynhyrchion amaethyddol Cymru erbyn 2005; ac
3. ecsbloetio'n llawn cyfleoedd cynyddol y farchnad yng Nghymru, y DU a mannau eraill.

I gyflawni'r nodau hyn, rhagwelwyd gweithgareddau yn y tri phrif faes ym mhob achos i dargedu cynyddu cyflenwadau, datblygu marchnadoedd a datrys problemau penodol:

a) **Polisi** – sefydlu Corff Cydlynu Strategol i Amaethyddiaeth Organig yng Nghymru (y Grŵp Strategaeth Organig) i gynrychioli'r sector organig yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru/y Swyddfa Gymreig (bellach Llywodraeth Cynulliad Cymru), a gefnogir gan dri is-grŵp sy'n ymdrin â'r camau polisi, gwybodaeth a marchnata. Ymhlith y camau penodol a gynlluniwyd oedd cyflwyno taliadau cynnal a chadw, adnabod cyfleoedd neu leihau effeithiau negyddol mesurau'r prif nwydd ac integreiddio'n agosach gynlluniau Ffermio Organig a Thir Gofal.

b) **Marchnata** – datblygu cynlluniau ar gyfer gwella'r seilwaith cyflenwi fel rhan o strategaeth a luniwyd i wella marchnata primaidd cynnyrch organig, cynorthwyo cynhyrchwyr i gadw rheolaeth ar gyflenwadau a darparu cefnogaeth i fentrau marchnata lleol a chenedlaethol lle bo'n bosibl drwy ddatblygu'r busnesau a reolir gan gynhyrchwyr sydd ar gael eisoes neu drwy sefydlu busnesau newydd lle nad oes rhai i'w cael ar hyn o bryd. Ymysg y camau penodol yn yr arfaeth oedd gwella cysylltiadau ar hyd y gadwyn gyflenwi, datblygu galluoedd prosesu drwy gefnogi grantiau prosesu a marchnata, a gwella gwybodaeth farchnata, ystadegau ac ymchwil i'r defnyddwyr.

c) **Gwybodaeth** – datblygu strategaeth organig gydlynol, gan integreiddio ymchwil a datblygu, addysg, hyfforddiant a gweithgareddau ymgynghorol ac estynnol eraill, mewn ffordd gydlynol drwy sefydlu 'Canolfan Ragoriaeth'. Ymhlith y camau penodol oedd hyfforddiant a chyngor i gynhyrchwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r sector, gwella gwybodaeth i ddefnyddwyr a chysylltu ag ysgolion, ac ymchwil i ymdrin â phroblemau technegol a gwella perfformiad ffermio organig.



*Nic Lampkin, Cyfarwyddwr Canolfan Organig Cymru a Chadeirydd Is-grŵp Polisi'r Grŵp Strategaeth Organig*

*Llun: Keith Morris*

[1]Am wybodaeth bellach, gweler Partneriaeth Bwyd-Amaeth Cymreig (1999) *Y sector bwyd organig Cymreig: cynllun gweithredu strategol.* Gweler www.organic.aber.ac.uk/policy/cynllgweithrorg.pdf

AnReport_A4e copy 7/8/2003 10:58 AM Page 5

# Adolygiad y Cynulliad ar Ffermio Organig yng Nghymru 2002

Ym mis Ebrill 2002, bu Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad yn cynnal ymchwiliad i ffermio organig yng Nghymru. Ei brif amcan oedd edrych ar ragolygon y dyfodol i'r sector organig yn ogystal â'r gefnogaeth ymarferol ac ariannol a oedd ar gael i ffermwyr yn ystod ac ar ôl y broses drosi. Bu'r Pwyllgor yn ymgynghori'n eang gan dderbyn tystiolaeth ysgrifenedig ac ar lafar gan amrywiaeth o gyrff ac unigolion. Lansiwyd yr adroddiad terfynol ym mis Chwefror 2002.

Casgliad y Pwyllgor oedd mai rhan bwysig o ymgyrch y Cynulliad i wneud amaethyddiaeth Cymru'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac yn economaidd yw ffermio organig, ac argymhellwyd y dylai cefnogaeth gyhoeddus barhau i'r sector. Sylwodd y Pwyllgor ei fod yn gyson â'r ddelwedd o Gymru fel rhywle sy'n cynhyrchu bwyd uchel ei safon mewn ffordd sy'n glên i'r amgylchedd a bod cynsail gref i adeiladu arni drwy waith y Grŵp Strategaeth Amaeth-Bwyd a bodolaeth Sector Organig Cymru fel canolfan ar gyfer cyngor ac arweiniad arbenigol.

Bu'r Pwyllgor yn gwneud nifer o argymhellion yn unol â'i gred y dylai datblygu'r sector adlewyrchu gofynion y farchnad gyda pholisi cyhoeddus yn amcanu at hysbysu defnyddwyr a helpu cynhyrchwyr Cymru i adnabod cyfleoedd a chyflwyno cynhyrchion cystadleuol uchel eu safon i'r farchnad, gan gynnwys:

- cyflwyno taliadau cynnal a chadw i gefnogi ffermwyr ar ôl trosi
- integreiddio ffermio organig i'r gyfres o gynlluniau amaeth-amgylchedd
- cefnogi grwpiau cynhyrchwyr organig a Chanolfan Organig Cymru
- parhau i gefnogi marchnata cynnyrch organig, gan gynnwys casglu gwybodaeth ar hyd y gadwyn gyflenwi
- hyrwyddo caffael cyhoeddus o ran nwyddau a gynhyrchir yn lleol
- ystyried menter cyhoeddusrwydd i hysbysu defnyddwyr am nwyddau organig
- strategaeth i annog cynhyrchu had organig domestig ar gyfer yr amrywogaethau mwyaf priodol
- defnyddio dylanwad i ganolbwyntio adnoddau ymchwil ar faterion sydd ag arwyddocâd arbennig yng Nghymru

Statws ymgynghorol yn unig sydd i adroddiad y Pwyllgor ADG i'r Cynulliad, ac nid yw'n cynrychioli polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dangosodd y Dirprwy Brif Weinidog a Gweinidog dros y Gymru Wledig a Chymru Tramor ar y pryd, Mike German AC, yn ei ymateb manwl ym mis Mawrth 2003, ei fod yn derbyn y rhan fwyaf o'r argymhellion a bod camau eisoes yn cael eu cymryd mewn perthynas â sawl mater a nodwyd gan gynnwys cyflwyno taliadau cynnal a chadw a pharhau i ariannu Canolfan Organig Cymru.

*Glyn Davies AC, Cadeirydd y Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig*



*Llun: LlCC*

[2] Am ragor o wybodaeth am yr adolygiad polisi, ymateb y llywodraeth ac i lawrlwytho'r adroddiad ***Dyfodol Ffermio Organig yng Nghymru,*** Pwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, Hydref 2002, gweler: www.organic.aber.ac.uk/policy/ARD.shtml

# Cynllun Ffermio Organig Cymru

Amcan y cynllun[3] yw annog ffermwyr sydd eisiau trosi tir i gynhyrchu'n organig, gan gynyddu yr arwynebedd sy'n ymroddedig i ffermio organig yng Nghymru a chan hyrwyddo system ffermio gynaliadwy, uchel ei safon sy'n diogelu cynefinoedd bywyd gwyllt ac sy'n lleihau'r potensial ar gyfer llygredd a difrod arall i'r amgylchedd gan fod ffermio organig yn osgoi defnyddio gwrteithiau artiffisial a phla-leiddiaid synthetig.

Lansiwyd y cynllun ym mis Tachwedd 1999, yn dilyn cau ac adolygu'r Cynllun Cymhorthdal Organig blaenorol (1994-1998) i Gymru a Lloegr gan MAFF (DEFRA erbyn hyn). Roedd yr hen gynllun wedi denu niferoedd cyfyngedig oherwydd lefel isel iawn y gefnogaeth ariannol, gyda'r rhan fwyaf o'r tir yng Nghymru yn gymwys ar gyfer cyfraddau talu Ardaloedd Llai Ffafriol yn unig. Roedd y cynllun newydd yn debycach i gynllun Lloegr gan mwyaf, ond heb fod mor gaethiwus mewn perthynas â chyfyngiadau ar yr ardaloedd y gellid hawlio amdanynt, gan ddewis diffiniad mwy hyblyg, sef tir heb ei gau yn hytrach na thir heb ei wella.

Mae'r taliadau newydd yn cynrychioli cynnydd sylweddol ar y sefyllfa flaenorol, ond golygai rhagolygon y cynllun newydd a'r diddordeb cryf mewn trosi o ganlyniad i brisiau uchel (o'u cymharu â'r rhai confensiynol) am gig a llaeth organig, fod llawer iawn o gynhyrchwyr yn dechrau trosi ar yr un pryd yn hwyr yn 1999. Caeodd y cynllun eto yn gynnar yn 2000 tra'n cael ei ailgymeradwyo fel rhan o Gynllun Datblygu Gwledig Agenda Cymru 2000, gan ailagor yn hydref 2000. Ond yn wahanol i Loegr, gallodd ffermwyr yng Nghymru ddechrau trosi heb gosb.

Ers 2000, bu gan y cynllun gyllideb sydd dros £3m y flwyddyn ac mae'r Cynulliad wedi darparu'r cyllid angenrheidiol i gefnogi pob ffermwr sydd wedi gwneud cais i ymuno. Ar hyn o bryd ceir rhyw 548 o ffermydd gyda 46,500 o hectarau yn y Cynllun Ffermio Organig, sef oddeutu 3% o dir amaethyddol Cymru.

**Cefnogaeth ariannol i drosi i gynhyrchu'n organig a'i gynnal a'i gadw yng Nghymru (Cyfanswm £/ha dros 5 mlynedd)**

| | Âr | Tir Glas | Tir heb ei gau |
|---|---|---|---|
| ***Cynllun Cymorth Organig (1994-1998)*** | | | |
| Safonol | 250 | 250 | - |
| Ardal Lai Ffafriol | 50 | 50 | 50 |
| ***Cynllun Ffermio Organig (1999 ymlaen)*** | | | |
| Trosi (hyd 2003) | 450 | 350 | 50 |
| Trosi (o 2003) | 480 | 390 | 65 |
| Cynnal a chadw (o 2003) | 175 | 175 | 50 |

**Niferoedd net sy'n ymgymryd â Thaliadau Cynllun Ffermio Organig (nifer y cytundebau)**

| 1998/99 | 1999/00 | 2000/01 | 2002/02 | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|
| 0 | 254 | 158 | 35 | 101 |

[3] Llyfryn esboniadol y Cynllun Ffermio Organig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Chwefror 2002.

Fel y Cynllun Organig blaenorol, ni fu unrhyw ddarpariaeth ar gyfer taliadau cynnal a chadw parhaus ar ôl i'r cynllun 5-mlynedd gael ei gwblhau ac nid oedd cynhyrchwyr a oedd wedi trosi'n flaenorol yn gymwys, yn wahanol i bron pob gwlad arall yn yr UE. Ond bwriedir cyflwyno taliadau cynnal a chadw tros dro, yn dilyn arolwg llawn arfaethedig ar integreiddio cynlluniau organig ac amaethyddol eraill ar gyfer 2003. Disgwylir y taliadau newydd yng Nghymru o'r hydref ymlaen. Am y tro cyntaf, bydd pob cynhyrchydd organig tystysgrifiedig yn gymwys.

# Y Cynllun Gweithredu a Chefnogaeth Polisi: Cyflawniadau a Chynlluniau Newydd

Wrth fyfyrio am amcanion a nodau cynllun gweithredu 1999, mae llawer iawn o'r amcanion wedi'u cyflawni'n llawn neu, fan leiaf, yn rhannol. Erbyn hyn y mae ffermio organig wedi hen ennill ei blwyf fel rhan o bolisi amaeth-amgylcheddol a bwyd Cymru, gan dderbyn cefnogaeth wleidyddol gref, fel y dengys adroddiad y Pwyllgor ADG ac ymateb y Gweinidog. Bu buddsoddi cyhoeddus yn y sector yn sylweddol, hyd at gyfanswm o dros £15 miliwn dros y pum mlynedd. Mae cyfran y tir amaethyddol sy'n cael ei reoli'n organig wedi cynyddu o 0.3% yn 1998 i 4% erbyn diwedd 2002, gyda nifer y ffermydd organig yn cynyddu o 120 i 618 dros yr un cyfnod. Mae hyn yn cynrychioli cryn lwyddiant, ond mae'r sector yn dal i fod gryn bellter o'r nod o 10% o sector cynhyrchion amaethyddol Cymru erbyn diwedd 2005.

**Buddsoddi cyhoeddus* yn y sector organig Cymreig (£m), 1998-2003**

| Rhaglen | 1998/99 | 1999/00 | 2000/01 | 2001/02 | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllun Ffermio Organig | 0.5 | 3.0 | 3.1 | 1.7 | 2.5 |
| Grantiau marchnata a phrosesu | ** | ** | ** | ** | 0.8 |
| Canolfan Organig Cymru | - | - | 0.2 | 0.2 | 0.3 |
| Gwasanaeth Gwybodaeth Trosi Organig (GGTO) | 0.2 | 0.2 | 0.2 | 0.1 | 0.1 |
| Amcan 5b (ADAS) | - | 0.1 | 0.1 | 0.1 | - |
| Amcan 5b (ADC) | - | 0.1 | 0.1 | 0.1 | - |
| Rhaglen Ddatblygu Organig Cyswllt Ffermo | - | - | - | - | 0.3 |
| CYFANSWM | 1.0 | 3.5 | 4.0 | 2.5 | 4.0 |

**Gwariant o ffynonellau LlCC, ADC a'r UE, gan eithrio costau gweinyddol y noddwyr*
***Dim data organig penodol ar gael ar gyfer 1998-2002*
*Ffynonellau: Llywodraeth Cynulliad Cymru, ADC, ADAS a Chanolfan Organig Cymru*

AnReport_A4e copy 7/8/2003 10:59 AM Page 8

Gyda phrif strwythurau'r Grŵp Strategaeth ar waith ers 1999, mae cyflwyno lefelau cefnogaeth uwch i drosi i ffermio'n organig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i rhagflaenwyr, yn 1999, a chyhoeddi'r taliadau cynnal a chadw tros-dro yn 2003, cyflawnwyd y prif nodau sy'n ymwneud â pholisi'n gynnar yn y dydd. Erys polisi'r is-grwpiau, a gefnogir gan Ganolfan Organig Cymru gyda chylch gorchwyl cryfach o ran datblygu polisi a strategaeth, yn weithredol wrth gynhyrchu atebion i ymgynghoriadau, yn enwedig mewn perthynas ag adolygiad canol tymor CAP gan gyfranogi o gynlluniau i ddiwygio ac integreiddio'r Cynllun Ffermio Organig â chynlluniau amaeth-amgylchedd eraill.

Mae sefydlu Canolfan Organig Cymru yn 2000, yr integreiddio a gwelliant a ddilynodd o ran gwasanaethau hyfforddi, cynghori a ffermydd arddangos, wedi'u targedu at gynhyrchwyr (gan gynnwys y Gwasanaeth Gwybodaeth Trosi Organig, cyllid i brosiectau Amcan 5b a Chyswllt Ffermio) yn dynodi'r prif lwyddiant o ran nod y strategaeth ar gyfer gwybodaeth gydlynol. Yn 2003, cytunwyd y dylai Canolfan Organig Cymru ymestyn ei ffocws i gynnwys addysg gyhoeddus, caffael cyhoeddus, datblygu polisi a strategaeth, gan ddarparu fel hyn gefnogaeth i'r holl gymuned organig yng Nghymru.

Gyda'r cynnydd cyflym o ran cynhyrchu a sawl busnes newydd ar waith yng Nghymru, mae rhai o'r prif nodau sy'n ymwneud â'r farchnad hefyd wedi'u cyflawni. Ond mae'r cynnydd cyflym yn y cyflenwad wedi arwain at broblemau marchnata mewn rhai achosion, yn enwedig yn y sector llaeth. Bellach, ceir cytundeb bod angen canolbwyntio nid yn unig ar wella cydlynu'r cyflenwad a'r gallu prosesu, ond hefyd ar y defnyddiwr a materion sy'n effeithio ar y gofyn am gynhyrchion organig, ac adlewyrchir hyn mewn gwaith a gomisiynwyd yn ddiweddar ynghyd â chylch gorchwyl newydd i Ganolfan Organig Cymru.

Bum mlynedd yn nes ymlaen, mae'n briodol cloriannau llwyddiannau a methiannau'r cynllun a'r strwythurau a sefydlwyd. Mae adolygiad cynhwysfawr, ar gais y Grŵp Strategaeth Organig, yn digwydd yn 2003 gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun gweithredu tymor-canolig a hir newydd i ymdrin â'r cyfnod 2004-2010 gan adlewyrchu'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu'r sector organig.

*Lluniau: Martin Peck, ADC, Rosie Boden*







# Twf a Datblygiad y Farchnad

## Golwg cyffredinol ar y farchnad

Yn ôl amcangyfrifon y diwydiant[4], mae gwerth manwerthu yn y farchnad organig yn y DU wedi cynyddu o bron i £400 miliwn yn 1998/9 i dros £1 biliwn yn 2002/03. Mae hyn wedi arwain at lefel uchel o ran gofyn ar gynhyrchwyr y DU, ond hefyd mae wedi golygu lefelau mewnforion uchel nes bod 65%-70% o farchnad y DU'n cael ei diwallu o dramor ar hyn o bryd. Amrywia'r sefyllfa o sector i sector gyda'r DU yn fwy hunangynhaliol o ran cynhyrchion da byw gan ddibynnu'n helaeth ar fewnforion ar gyfer cynhyrchion garddwriaethol.

Nid oes unrhyw ddata ar gael ar hyn o bryd ar faint y farchnad organig gartref yng Nghymru, ond mae ymchwil yr adroddir arni yn y tudalennau a ganlyn, wedi'i chomisiynu gan ADC (ar ddefnyddwyr) a'r Ganolfan (ar y sectorau cig coch, llaeth a garddwriaeth) fel rhan o'u hymdrechion i wella'r wybodaeth am y farchnad sydd ar gael ac i ddeall y prif dueddiadau ymhlith defnyddwyr ac eraill.

Mae'r cynnydd ym marchnad y DU ar gyfer cynhyrchion organig yn gyson â thueddiadau byd-eang, er bod ystadegau ar union faint y farchnad gyfan i gynhyrchion organig yn Ewrop yn gyfyng iawn o hyd[5]. Mae rhai amcangyfrifon diweddar wedi awgrymu mai gwerth manwerthu bwyd organig yn y farchnad Ewropeaidd yw oddeutu 10-11 biliwn EUR yn 2002.

## Is-grŵp marchnata'r Grŵp Strategaeth Organig

Wrth i'r farchnad organig aeddfedu, felly y bydd anghenion cwmnïau organig Cymru'n newid. Mae'r is-grŵp marchnata wedi dechrau rhaglen i gyflenwi cwmnïau organig Cymru â'r offerynnau y gall fod eu hangen arnynt i ddatblygu'r farchnad organig. Comisiynwyd gwaith ymchwil farchnata werthfawr iawn ar y cyd gan Gymru a de-orllewin Lloegr. Gwaith eithriadol gynhwysfawr oedd hwn, a bydd fersiwn cryno wedi'i dargedu ar gael i gwmnïau yng Nghymru. Bellach cysylltir â phob cwmni a all fod yn ymwneud â marchnata gan ofyn iddynt pa offerynnau sydd eu hangen arnynt ac mae grŵp cynrychioladol wedi'i recriwtio i'r is-grŵp marchnata.

Gwneir cysylltiadau hefyd drwy'r Soil Association â chyrff rhanbarthol eraill yn y DU i helpu cael rhywfaint o gynllunio ar draws y DU i'r farchnad organig.

*Bob Kennard, Cadeirydd yr Is-grŵp Marchnata*



*Llun:Graig Farm Organics*

[4] *Organig Food and Farming Report* (blynyddol). Soil Association, Bryste.
[5] Hamm U. et al. (2002) *Analysis of the European market for organic food.* Ysgol Rheolaeth a Busnes, PCA.

# Cefnogi Marchnata Bwyd Organig

Ers dros ddegawd mae Awdurdod Datblygu Cymru wedi gwneud cyfraniad pwysig tuag at ddatblygu marchnata bwyd organig gan roi cymorth i gynhyrchwyr a phroseswyr organig. Mae cefnogaeth ar gael ar wahanol ffurfiau, gan gynnwys grantiau, gweithgareddau hyrwyddo, gwobrau ac ymchwil.

## Grantiau ar gyfer prosesu a marchnata



*Knobbly Carrot, a dderbyniodd gyllid gan ADC ar gyfer cawl, salad a chyfleusterau gwneud brechdanau organig newydd (£40,000 tuag at at brosiect £100,000)*

Mae dros £2 miliwn wedi'u buddsoddi yn y sector bwyd organig yn ystod y ddwy flynedd diwethaf o dan Grant Prosesu a Marchnata ADC, sy'n defnyddio cyfuniad o nawdd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Ewropeaidd. Ei amcan yw annog cwmnïau i ychwanegu gwerth at fwyd a gynhyrchwyd yng Nghymru. Mae'r cynllun yn cyfrannu hyd at 40% o gostau cymwys y cynllun mewn ardaloedd Amcan 1 a 30% mewn ardaloedd nad ydynt yn ardaloedd Amcan 1. Mae'r cyfanswm o £2 miliwn felly yn cynnwys £808,952 yn gymhorthdal a'r gweddill yn fuddsoddiadau gan gwmnïau.

Mae grantiau wedi'u rhoi i naw busnes amaeth-bwyd organig yng Nghymru, gan gynnwys Capestone Organic Poultry, Welsh Hook Meat Centre, y Knobbly Carrot Company, Maes-y-Felin Organic Poultry, S&J Organic, Welsh Farm Organics a'r Creative Cooking Company.

## Datblygu'r fasnach

Mae ADC wedi cefnogi cwmnïau bwyd organig wrth arddangos mewn digwyddiadau'r fasnach ar draws y byd. Yn 2002 a 2003, gallodd cwmnïau arddangos o dan frand y Gwir Flas mewn digwyddiadau organig arbenigol, gan gynnwys Organex ac Organic Products Europe. Mae cwmnïau hefyd yn elwa o amrywiaeth eang o weithgareddau i ddatblygu'r fasnach sy'n arwain at fwyfwy o gynnyrch organig yn ymddangos ar y silffoedd, gan gynnwys digwyddiadau Cwrdd â'r Prynwr, seminarau allforio a rhaglen ddatblygu'r cyflenwr unigryw a gynhelir gan Sainsbury's.

## Ymchwil i'r defnyddiwr



*Welsh Hook Meat Centre, a dderbyniodd grant £300,000 i ymestyn eu cyfleusterau prosesu cig yn Sir Benfro*

Yn 2002/03, comisiynwyd adroddiad[6] a'i noddi ar y cyd gan ADC â'r Soil Association a'r South West Food and Drink Association. Amcanion yr astudiaeth oedd i ddeall yr hyn sy'n ysgogi ac yn rhwystro prynu gwahanol gategorïau o gynhyrchion organig, i bennu amledd y prynu, i nodi agweddau tuag at fwydydd organig yn

*Lluniau: ADC*

[6]Soil Association/Taylor Nelson Sofres (2003) *Organic purchasing triggers*, yn y wasg



*Jonathan a Sally Rees o Welsh Farm Organics a gododd uned brosesu cig £120,000 o'r fath ddiweddaraf ger y Drenewydd gyda grant 30% gan ADC*

gyffredinol, i nodi gwahaniaethau o ran prynu gan wahanol gategorïau o ddefnyddwyr ynghyd ag asesu dylanwad tarddiad ar ganfyddiad defnyddwyr. Mae'r canlyniadau cyntaf wedi esgor ar wybodaeth werthfawr a fydd yn cynorthwyo busnesau organig o Gymru wrth ddatblygu ymgyrchoedd marchnata sydd wedi'u targedu ar y sector. Bydd ADC yn cefnogi cwmnïau wrth weithredu'r gweithgaredd marchnata yma..

## Gwir Flas

Seilir cefnogaeth i fuddsoddiad a datblygu'r fasnach yn y sector organig ar weithgareddau marchnata a chysylltiadau cyhoeddus penodedig. Lansiwyd Gwir Flas, y brand ar gyfer y diwydiant bwyd a diod yng Nghymru, yn 2002 i roi hwb i farchnata cynnyrch Cymru. Datblygu brand yw un o'r tasgau allweddol a roddwyd i ADC gan y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd, corff ymgynghorol y diwydiant.

I ategu safle cyffredinol y brand, cynhaliwyd Seremoni Wobrwyo Bwyd a Diod Gwir Flas am y tro cyntaf yn 2002 er mwyn dathlu rhagoriaeth ac arloesedd yn y diwydiant. Bu saith o enillwyr yn y categori Yn Organig yn Wreiddiol, ond cwmnïau organig a ddaeth i'r brig mewn categorïai drwyddi draw.[7] Mae'r cwmnïau hyn, sy'n cael yr hawl i ddefnyddio logo Gwir Flas wrth becynnu, wedi sôn am hwb i'w busnesau yn sgil yr ymgyrch farchnata amlwg sy'n gysylltiedig â'r gwobrwyon.

Bu gan yr enillwyr y cyfle i ddangos eu cynnyrch i banel o feirniaid o fri, a oedd yn cynnwys cogyddion, awduron bwyd a phrynwyr i archfarchnadoedd. Cawsant sylw helaeth gan y cyfryngau ar HTV, BBC, gwasg y DU a'r wasg organig arbenigol, gan elwa o ymgyrch farchnata ledled y DU. Bu'r cynnyrch buddugol hefyd yn cael ei ddangos yn y sioe Blas a gynhelir yn Hen Lyfrgell Caerdydd gan ADC a Chyngor Caerdydd, ac sydd hefyd wedi teithio i ddigwyddiadau pwysig yng Nghymru.

*Bu Rachel Rowlands MBE, cydsefydlydd Llaethdy Organig Rachel ac yn ffarmwraig yn y Borth, yn ymwneud â hyrwyddo bwyd a diod yng Nghymru ers dros 20 mlynedd. Yn seremoni wobrwyo bwyd Gwir Flas gyntaf yn 2002, penderfynodd y beirniaid yn unfrydol mai hi ddylai dderbyn y teitl Llysgennad y Flwyddyn, gan gynrychioli'r diwydiant yng Nghymru a thramor, gan gynnwys ymweliad nodedig ag Efrog Newydd i hyrwyddo cynhyrchion Cymru.*




*Lluniau: ADC*

[7] Am wybodaeth bellach gweler www.walesthetruetaste.com/cy/index.jsp

# Cynhyrchu Organig yng Nghymru

Mae arwynebedd y tir sydd â statws organig[8] yng Nghymru wedi cynyddu'n gyflym dros y pum mlynedd ddiwethaf. Ym 1998, nid oedd ond 120 o ffermydd, llawer iawn ohonynt yn fach iawn, a chyfanswm arwynebedd eu tir organig tystysgrifiedig oedd 3000 ha. Erbyn diwedd 2002, roedd 618 o ffermydd a chanddynt gyfanswm o 55,101 ha sy'n llwyr organig neu'n cael ei drosi. Mae hyn yn cynrychioli 3.7% o dir amaethyddol Cymru. Erbyn hyn ceir 103 o broseswyr a mewnforwyr tystysgrifiedig yng Nghymru.


### Arwynebedd tir organig ac sy'n cael ei drosi yng Nghymru, 1998-2002




*Ffynonellau: DEFRA, UKROFS a Chanolfan Organig Cymru*

Mae llawer iawn o'r tir organig newydd hwn yn gysylltiedig â chynhyrchu cig eidion ac oen, er i gynhyrchu llaeth hefyd fod yn sylweddol. Mae bron i 90% (49,000 ha) o'r holl dir o dan reolaeth organig yn dir glas a dim ond 1% (630ha) sy'n arddwriaethol. Grawnfwydydd a chnydau eraill yw 7% (3,100 ha) gyda'r gweddill yn goetir, yn dir heb gnydau, yn neilldir ac yn dir arall.

### Dosbarthiad defnydd tir organig yng Nghymru, 2002




*Ffynhonnell: DEFRA, 2003.*







*LLuniau: Arvid Parry Jones, John Harvey, Rosie Boden*

[8]Am wybodaeth ar ystadegau cynhyrchu organig yng Nghymru, y DU ac Ewrop, gweler www.organic.aber.ac.uk/stats.shtml

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:00 AM Page 13


Mae cynnydd cyfatebol yn nifer y da byw organig (gweler tudalennau 14 ac 16) gyda'r prif fathau'n adlewyrchu pwysigrwydd tir glas ar ffermydd organig Cymru. Mae'r cyfanswm stoc a gedwir yn cynrychioli 2-3% o holl dda byw Cymru ym mhob categori, er bod mwy na 50% o gig eidion a defaid ar ddaliadau yng Nghymru eto i gyrraedd statws organig erbyn 2002, fel nad oes ond 1% o eidion a defaid Cymru'n llwyr organig. Er bod nifer o gynhyrchwyr moch a dofednod ar raddfa lai, ychydig gynhyrchwyr ar raddfa fawr sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o'r wyau a chywion ieir a gynhyrchir.

Mae twf ffermio organig yng Nghymru'n adlewyrchu tueddiadau mewn mannau eraill yn y DU[9] , gyda nifer y daliadau organig yn y DU yn cynyddu o 1462 ym 1998 i 4057 yn 2002 a chyfanswm yr arwynebedd o 275 i 725 o filoedd o hectarau dros yr un cyfnod, gan gynrychioli cyfran debyg o'r sector amaethyddol i'r hyn a geir yng Nghymru.

Yn yr Undeb Ewropeaidd[9], roedd cynhyrchu tystysgrifiedig a gefnogir gan bolisi, yn gyfrifol am 2.8 miliwn hectar yn 1998, 2.0% o gyfanswm yr arwynebedd amaethyddol. Erbyn diwedd 2002, roedd hyn wedi dyblu i dros 5 miliwn ha, 4% o'r holl arwynebedd amaethyddol. Yn yr un cyfnod, mae nifer y daliadau organig wedi cynyddu o 134 i bron 170 o filoedd.

Tra bo sawl gwlad Ewropeaidd eisoes yn dynesu at 10% o'u harwynebedd tir o dan reolaeth organig, mae Cymru wedi llwyddo o leiaf i fynd yn gydradd â'r cyfartaledd Ewropeaidd a hynny o fan cychwyn isel iawn yn 1998.

## Arwynebedd tir organig ac sy'n cael ei drosi (miliwn ha) yn yr Undeb Ewropeaidd, 1985-2002




[9] Am wybodaeth bellach am ystadegau'r DU, gweler yr adroddiadau *Organic Food and Farming* blynyddol a gyhoeddir gan y Soil Association, Bryste.
[10] Am wybodaeth bellach am ystadegau Europeaidd, gweler www.organic.aber.ac.uk/stats.shtml

# Y Sector Cig Coch

## Cynhyrchu

Ffermio eidion a defaid a gafwyd yn bennaf ar fynyddoedd Cymru, ond cyn 1998, nid oedd ond un ffermwr da byw organig yng ngogledd Cymru a fawr neb yng ngweddill y wlad chwaith. Roedd ffermio llaeth, garddwriaeth a ffermio cymysg yn ne-orllewin Cymru wedi arwain y ffordd ac roedd y sector cig coch organig yn parhau heb ei ddatblygu o'i gymharu. Cyn bo hir byddai hyn yn newid wrth i nifer y ffermwyr da byw a oedd yn mynd ati i drosi i ffermio organig yng Nghymru godi o lai nag 20 yn 1998 i bron i 200 yn 1999.

Er mai uchafbwynt oedd 1999, cynyddodd maint y fuches bridio eidion bedair o weithiau rhwng 1998 a 2003, gyda chynnydd tebyg yn niferoedd y defaid ac ŵyn organig. Yn y sector eidion a defaid y ceir y nifer fwyaf o ffermydd sy'n mynd ati i drosi o hyd, bron i draean o'r cyfanswm, gyda chanran uchel o ffermydd mawr, sef ffermydd dros 200 hectar. Gan fod cryn dipyn o dir yn cael ei drosi yn 2003, mae lefel cynhyrchu cig coch organig yng Nghymru yn barod i gynyddu yn ystod y blynyddoedd a ddaw.


**Twf cynhyrchu da byw organig yng Nghymru, 1998-2002**

| | 1998/99 | 2000/01 | 2002/03 |
|---|---|---|---|
| Buchod sugno organig | 600 | 1800 | 2300 |
| Gwartheg organig >12m | 800 | 1400 | 3400 |
| mamogiaid organig | 8000 | 25000 | 50000 |
| Wyn/Hesbinod Organig | 12000 | 35000 | 65000 |
| Buchod organig | - | 200 | 50 |
| Ieir dodwy organig | - | - | 45000 |
| Adar organig i'r bwrdd | - | - | 52000 |

*- dim data*
*Ffynhonnell: SA/COC a data a gasglwyd yn uniongyrchol gan y cyrff tystysgrifio*

Golygai cylchedau cynhyrchu hir cig coch, yn enwedig eidion, fod cynhyrchu cig coch, o dan reolau trosi safonol, yn gofyn am ymrwymiad tymor-hir. Llwyddodd cyflwyno rheolau trosi-ar-yr-un-pryd yn 1999 ar gyfer y tir a'r stoc, i gwtogi'r amser dan sylw yn sylweddol. Cyfrannodd hyn ynghyd â chyfraddau newydd ar gyfer taliadau'r Cynllun Ffermio Organig a chwymp aruthrol yn y marchnadoedd confensiynol yn sgil BSE, at dwf dramatig o ran trosi.

*Cyrhaeddodd Cannon Farm, a gofrestrir â'r Soil Association, statws organig ym 1993. Mae'r fferm fynydd hon, tua 330 ha, yn cynnal 40 o fuchod duon Cymreig pedigri a'u rhai ifainc, wyth buwch yr Ucheldiroedd a 1000 o famogiaid wynebfrith mynydd Cymreig. Mae'n aelod o Grŵp Cynhyrchu Graig Farm ac wedi ennill sawl gwobr, gan gynnwys Cynhyrchydd y Flwyddyn gan y Soil Association yn 2001*



*Nigel Elgar o Cannon Farm*

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:00 AM Page 15

*Yn haf 2002 lansiwyd prosiect* ***meincnodi*** *a gydlynir gan y Ganolfan yn benodol ar gyfer cynhyrchu da byw organig yng Nghymru. Gyda chyllid gan Gyswllt Ffermio, mae'r prosiect wedi galluogi 48 o ffermwyr eidion a defaid organig i gymharu'u costau cynhyrchu â'i gilydd gan ofalu am eu perfformiadau busnes unigol ar sail kg pwysau byw i'r geiniog. Mae'r prosiect hefyd yn cael ei gynnal ar y cyd â'r MLC, MDC a thîm yr Arolwg Busnesau Fferm yng Nghymru*



## Datblygu'r farchnad

Rhennir y farchnad gig coch organig yn ddwy brif ran – y sector gwerthu uniongyrchol a brandio, a'r sector carcasau i'r archfarchnadoedd. Yn y cyntaf, cafwyd sawl datblygiad yn ddiweddar o ran gwerthu uniongyrchol, marchnadoedd ffermwyr, siopa ar y we, a datblygu brandiau yng Nghymru, a fu'n galonogol o ran y farchnad yn gyffredinol.

Fodd bynnag, o ran swmp, cig organig dan label yr archfarchnadoedd unigol sy'n tra-arglwyddiaethu (hyd at tua 80%). Tra bo'r gofyn yn parhau'n gyson am eidion ac oen i sector yr amlwerthwyr, yma hefyd cafwyd datblygiadau. Mae gwaith rhwng Grŵp Cynhyrchwyr Graig Farm, y Soil Association a grwpiau rhanbarthol eraill yn y DU yn 2002/03 wedi esgor ar Ffederasiwn Grwpiau Marchnata Cig Organig Rhanbarthol. Pwrpas y Ffederasiwn hwn yw dod â fframwaith a sefydlogrwydd i'r farchnad gig organig, drwy sicrhau bod proseswyr yn derbyn yr union ansawdd a chysondeb sydd ei angen, tra'n rhoi cyfle i'r cynhyrchydd ymwneud â'r broses. Yr amcan yw cyflwyno elfen o gynllunio i'r broses farchnata, o ran y swmp a'r prisiau. Mae'r Ffederasiwn eisoes yn mynd rhagddo'n dda gan ddatblygu'n gyson. Gobeithir y bydd pob cynhyrchydd sydd heb farchnad ar gyfer eu cynnyrch yn gwerthu eu da tewion organig drwy'r rhwydwaith cenedlaethol hwn o Grwpiau Cynhyrchwyr Rhanbarthol.

Awgryma adroddiadau[9 12], a baratowyd i'r Ganolfan gan y Soil Association yn 2003 fod y cyflenwad cig coch organig yn debygol o barhau i gynyddu yn ystod 2004-06, gan wneud argymhellion i wella effeithlonrwydd y farchnad. Ceir cydnabyddiaeth gyffredinol fod cydweithrediad rhwng cynhyrchwyr, a gwell cydweithrediad ledled y gadwyn gyflenwi, yn ddymunol, ac mae'r Ffederasiwn newydd a rhai patrymau llwyddiannus wrth farchnata cig coch organig yng Nghymru yn cynnig cynsail i hyn. Meysydd eraill lle y gellid gwella'r marchnata yw brandio Cymreig, gwerthu uniongyrchol, datblygu ymwybyddiaeth y defnyddiwr a materion sy'n ymwneud â chynhyrchu a phrosesu, megis tymoroldeb a chymhwysedd lladd-dai.

*Graig Farm Organics oedd enillydd y wobr aur i gynhyrchwyr canolig i fawr yn y categori 'O'r Gorlan Organig' gwobrwyon Gwir Flas 2002 ADC. Mae Graig Farm yn prosesu ac yn marchnata amrywiaeth eang o gigoedd organig a chynnyrch arall, i gyd yn olrheiniadwy i'r ffermydd lle y'u cynhyrchwyd, gan werthu drwy fanwerthwyr ledled y DU, y rhyngrwyd a siop y fferm.*



*Lluniau: John Harvey, ADC*

[11]Bassett, A. (2003) Improving market intelligence for the organic red meat sector in Wales. OCW/Soil Association. Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/MIredmeat.pdf
[12]Bassett, A. (2003) ***Organic red meat development in Wales.*** OCW/Soil Association. See www.organic.aber.ac.uk/library/redmeat2003.pdf

# Y Sector Llaeth

## Cynhyrchu

Yn 1998 a 1999, edrychai cynhyrchu llaeth organig yn ddeniadol iawn – roedd ffermwyr organig yn derbyn 29.5 cyl, tra oedd eu cymheiriaid confensiynol yn ymlafnio i gyrraedd 19 cyl ar gyfartaledd yn flynyddol. Roedd y gofyn am gynhyrchion llaeth organig yn gryf a daeth prynwyr confensiynol i'r farchnad organig, gan annog ffermwyr i drosi gan gynnig 31.5 cyl am 6 mis.

O ganlyniad i'r ffactorau hyn, yn ogystal â gwell cymorth ariannol i ffermwyr yn trosi o dan y Cynllun Ffermio Organig, dechreuodd llawer iawn o ffermwyr llaeth drosi yn 1999 a 2000. Rhwng 1998 a 2002, cynyddodd nifer y ffermydd organig â mentrau llaeth yng Nghymru o 30 i bron 150, a nifer y buchod llaeth organig o 900 i 5100, gyda hyd at 2000 o fuchod eraill yn cael eu rheoli'n gonfensiynol ar ffermydd organig. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd yng nghynhyrchedd ffermydd organig Cymru o 6 miliwn i dros 30 miliwn litr, gyda'r potensial ar gyfer 10 miliwn litr ar ben hynny gan y ffermydd dan sylw.

Digwyddodd tueddiadau tebyg ar lefel y DU gyda chynhyrchedd yn codi i 218 miliwn litr yn 20019 (gan godi i dros 250 miliwn litr yn 2002), ond nid oedd 27% o fuchesau llaeth ar ffermydd organig wedi'u tystysgrifio'n organig, ac roedd 81 miliwn litr (37%) yn cael eu marchnata'n organig (gan godi i 115 miliwn litr yn 2002). Un o'r prif ganlyniadau i hyn yw y bu'n rhaid i gynhyrchwyr llaeth organig dderbyn prisiau is, naill ai'n uniongyrchol neu o ganlyniad i gyfran o'u llaeth, neu'r cyfan ohono, gael ei farchnata'n gonfensiynol.

Gyda fawr o ffermwyr llaeth bellach yn trosi wrth i'r enillion gwael presennol o dan system gynhyrchu uchel ei chost ddod i'r amlwg, ceir arwyddion clir fod gwarged y cynhyrchedd yn syrthio wrth i rai cynhyrchwyr organig droi oddi wrth laeth organig at gynhyrchu cig organig, ac eraill yn ymadael â ffermio organig. Fodd bynnag, mae llawer yn dal i fwydo'u buchesau'n gonfensiynol ac felly nid ydynt yn cynhyrchu llaeth organig, ond mae ganddynt y potensial i wneud hynny'n gyflym pe bai'r farchnad yn gwella.

**Y twf mewn cynhyrchu llaeth organig yng Nghymru, 1998-2002**


| | 1998/99 | 1999/00 | 2000/01 | 2001/02 | 2002/03 |
|---|---|---|---|---|---|
| Ffermydd organig â mentrau llaeth | 30 | 49 | 147 | 145 | 140 |
| Buchod organig | 900 | 1500 | 2260 | 5200 | 5100 |
| Llaeth organig i'r farchnad (milliwn litr) | 4 | 6 | 10 | 20 | 36 |
| Cyflenwad ychwanegol posibl (milliwn litr)* | - | - | - | 10 | 5-10 |

** seiliwyd ar 1500-2000 buwch anorganig neu'n cael eu trosi yn 2002*
*Ffynhonnell: MDC[13], SA/COC[14] a data a gasglwyd yn uniongyrchol o'r cyrff tystysgrifio*

[13]Padel, S. et al. (2002) ***Market prospects for organic milk***. Milk Development Council. Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/marketmilk.pdf
[14]Hancock, J. & R. Haward (2003) ***Improving market intelligence for organic dairy production in Wales***. OCW/Soil Association. Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/MIdairy2003.pdf

*Fferm 96 ha yn Sir Ddinbych yw'r Groes Bach sy'n cynnal rhyw 95 o fuchod llaeth a rhai ifainc. Fe'i cofrestrir ag Organic Farmers & Growers a chyrhaeddodd statws organig ym Mehefin 2001, gan farchnata drwy Galon Wen. Ers dechrau trosi maent wedi'u siomi ar yr ochr orau gan gynhyrchedd y tir a'r fuches ac maent o'r farn y gall ffermio organig fod yn llwyddiannus ar y rhan fwyaf o ffermydd teuluol yng Nghymru, ar yr amod bod prisiau'n ymadfer yn fuan*

*Iwan Wynne Jones y Groes Bach*



*Mae llawer o ffermwyr wedi elwa o brosiect* ***meincnodi'r*** *Ganolfan, sy'n galluogi ffermwyr i gymharu eu costau cynhyrchu ar sail ceiniog y litr, gan gynnwys grŵp trafod gweithgar o ffermwyr llaeth organig yn Sir Gaerfyrddin. Darparwyd costau cynhyrchu wyth o ffermwyr i'w trafod a'u dadansoddi gan staff arbenigol. Ar hyn o bryd, mae'r grŵp yn gweithio â gwahanol grwpiau trafod ledled Cymru sy'n helpu i wella'u perfformiad.*



*Cyflenwyd y llun gan Warmlight Photography, © IGER*

## Datblygu'r farchnad

Fel y dangoswyd uchod, ni fu fawr o broblemau wrth farchnata llaeth organig ym 1998/1999 i'r prynwr llaeth organig arbennig, OMSCo Cymru, neu'r proseswyr confensiynol a fu'n annog i'w cynhyrchwyr drosi gan barhau i gyflenwi'u prynwr presennol. Fodd bynnag pan drodd tan-gyflenwi yn orgyflenwi yn 2001-02, gweddnewidiwyd y sefyllfa.

Dechreuodd gwahanol fentrau farchnata'r gwarged cynyddol yma. Mae cwmnïau Cymreig sefydledig, fel Llaethdy Rachel, wedi profi twf sylweddol ac mae proseswyr newydd, gan gynnwys Hufenfa De Arfon, wedi dod i'r farchnad. Dechreuodd Calon Wen, cywaith y ffermwyr llaeth Cymreig organig, casglu llaeth yn haf 2000. Mae ychydig o laeth yn cael ei farchnata mewn gwahanol ffyrdd wrth i ffermwyr gydweithio, megis Trioni, sy'n contractio, prosesu a chartoneiddio llaeth a'i ddosbarthu i werthwyr lleol yn bennaf, a Classic Organic sy'n cynhyrchu diodydd llaeth cyflas wedi'u hanelu at ysgolion yn ogystal ag unigolion sydd wedi dechrau gwneud gwahanol gawsiau organig. Mae cawsiau organig newydd hefyd wedi'u datblygu gan amrywiaeth o gynhyrchwyr caws ffermdy.

Mae'r mentrau'n dechrau cael effaith ar broblem y gwarged, wedi'u helpu wrth i fwyfwy o nwyddau cartref ddisodli mewnforion, ond erys strategaethau prisio'n fater sydd, ym marn rhai, yn tanseilio'r potensial i gynyddu'r gwerthiant.

*Enillodd Caws Cenarth y wobr aur i broseswyr a chynhyrchwyr bach i ganolig yn y categori "Gwerth Gwneud y Gorau" Gwobrwyon Gwir Flas ADC 2002. Mae Caws Cenarth, a sefydlwyd ym 1987, yn gwneud amrywiaeth o gawsiau organig gan gynnwys Perl Las a Pherl Wen.*



*Lluniau: John Harvey, IGER, ADC*

# Y Sector Garddwriaethol

## Cynhyrchu

Bu garddwriaeth organig yn greiddiol i ddatblygu ffermio organig yng Nghymru, gyda thyfwyr arloesol o Gymru'n gyfrifol am sefydlu cyrff allweddol yn hanes mudiad organig y DU. Wrth i'w bwysigrwydd cymharol yng Nghymru leihau wrth i sectorau eraill dyfu, erys yn sector cryf gyda 630 ha o ffrwyth a llysiau ar dua 160 o ddaliadau o dan reolaeth organig yng Nghymru yn 2002.

Ym 1999, comisiynwyd Coleg Amaethyddol yr Alban gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i baratoi adroddiad i arolygu'r sectorau amaethyddol 'amgen' er mwyn adnabod pa rai a allai ddarparu'r budd mwyaf i economi wledig Cymru. Derbyniodd garddwriaeth organig asesiad ffafriol ac, yn 2002, sefydlwyd is-grŵp garddwriaeth organig a fyddai'n adrodd yn ôl i'r Grŵp Strategaeth Organig. Bellach ceir hefyd Grŵp Strategaeth Garddwriaeth gan gynnwys cynrychiolaeth o'r sector organig.

Mae cefnogaeth o'r grwpiau hyn yn helaethu'r gwasanaethau sydd ar gael i dyfwyr o Ganolfan Organig Cymru, GGTO a Chyswllt Ffermio. Yn 2002, sefydlwyd fferm ddatblygu yng Ngholeg Garddwriaeth Cymru i gynnal rhaglen dreialon a datblygu, gan edrych ar gylchdroadau, hadau organig a gwrthsafiad i afiechydon mewn tatws gan ategu'r ymchwil a wnaethpwyd gan HDRA ac eraill mewn mannau eraill yn y DU. Mae arweinlyfrau technegol sy'n cynnwys rhywfaint o'r ymchwil hon ar gael drwy'r Ganolfan ac mae gweithdai i dyfwyr wedi'u cynnal ar draws Cymru.

*Mae Blaencamel, fferm 45 erw yng Ngheredigion, wedi'i rheoli'n organig ers 1974. Tyfir llysiau ar 12-15 erw gan gynnwys erw o dai gwydr. Arferai'r fferm gynhyrchu i fannau gwerthu'n lleol ond mae wedi symud at dyfu i archfarchnadoedd yn bennaf, drwy Fwydydd Fferm Organig yn Llambed. Sefydlwyd system gompostio ficrobialaidd reoledig ddwy flynedd yn ôl ac mae Blaencamel yn arbrofi â the compost i reoli afiechydon.*



*Compostio ym Mlaencamel*

*Am y bedwaredd waith, mae Gwobr Loraine ar gyfer Cadwraeth Natur a Ffermio Organig wedi mynd i gynhyrchydd o Gymru. Yn 2002, gwnaeth Liz Findlay, sy'n ffermio 30 erw yn Llanilar yng Ngheredigion, argraff ar y beirniaid gydag amrywiaeth y cynefinoedd a bywyd gwyllt ar ei thir, sy'n cynnwys coetir, gwlyptir, porfa gyforiog ei rhywogaethau a choed a chloddiau aeddfed, heb sôn am erw o lysiau a ffrwythau meddal. Enillwyd y wobr o'r blaen gan Martin Peck o Bowys, Cliff Carnell yng Sir Gaerfyrddin a John a Peter Morris o Sir Benfro.*





*Liz Findlay*

*Lluniau: ADAS, John Harvey, ADC*

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:01 AM Page 19

# Datblygu'r farchnad

Yng Nghymru, mae garddwriaeth organig wedi chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu'r farchnad organig – ym 1985, moron organig o Gymru oedd y cynnyrch organig cyntaf i ymddangos ar silff archfarchnad yn y DU. Cymerodd llysiau organig o Gymru gyfran sylweddol o'r farchnad yn y DU yn ystod y 1990au cynnar, er i'r canran syrthio yn ystod y blynyddoedd diwethaf oherwydd cynnydd o ran cynhyrchu mewn mannau eraill. Mae cwmni pacio o bwys, Bwydydd Fferm Organig yn Llambed, wedi bod ar y blaen yn y datblygiad hwn.

Bu pryderon am lefel y mewnforion, yn enwedig yn ystod prif dymhorau cynhyrchu'r DU. Yn aml, soniwyd am 70-85% yn fewnforion, ond dengys astudiaeth ddiweddar[15], os tynnir ffrwythau o'r hafaliad, fod marchnad arddwriaethol y DU yn fwy na 50% yn hunangynhaliol. Casgliad yr astudiaeth oedd bod yna botensial ar gyfer amnewid mewnforion 10% ymhellach, ynghyd ag ehangu'r farchnad yn y dyfodol – tipyn o ostyngiad o'r dyddiau penysgafn pryd y ceid 40% o dwf yn flynyddol ym 1999 a 2000, ond mae potensial sylweddol am ragor o dwf.

Wrth i'r cyflenwad o Gymru dyfu, a chyda chystadleuaeth o Loegr, Yr Alban a mewnforion, mae llawer iawn o gynhyrchwyr wedi dysgu'r ffordd galed am y peryglon posibl yn ogystal â manteision cyflenwi mannau gwerthu y brif ffrwd. Mae'r angen i gyfathrebu â phacwyr cyn plannu yn hanfodol er mwyn cynllunio cynhyrchu i ddiwallu'r farchnad, ond nid yw hyn hyd yn oed yn gwarantu prisiau uchel nac yn diogelu rhag colledion oherwydd allraddio uchel neu gnydau sydd heb eu marchnata. Er gwaethaf rhai o'r problemau, mae pacwyr yn chwilio i gynyddu cyflenwad cynnyrch organig Cymru ymhellach ac maent yn gweithredu rhaglenni i gyrchu'r nod hwn.

Mae nifer marchnadoedd y ffermwyr, pobl yn prynu drwy gynlluniau blychau a mentrau amaethyddol a gefnogir gan y gymuned, wedi cynyddu dros y pum mlynedd diwethaf. Mae mentrau megis Gwobrwyon Gwir Flas a gwyliau bwyd yn helpu cyfleu'r neges bod bwyd lleol nid yn unig yn ffres ac yn llawn blas, ond ei fod hefyd yn dod â chryn fanteision drwy gwtogi ar filltiroedd bwyd a thrwy rhoi hwb i economïau lleol.

Mae Canolfan Organig Cymru wedi comisiynu adroddiad gwybodaeth am y farchnad ynglŷn â garddwriaeth organig, a gyllidir gan Gyswllt Ffermio. Y bwriad yw adnabod y cryfderau a'r cyfleoedd i gynhyrchwyr ffrwythau a llysiau Cymru. Bydd hefyd yn nodi mecanweithiau i dyfwyr fynd at wybodaeth am brisiau a'r hyn sydd ar gael, er bod y rhain yn feysydd diarhebol anodd o ran cywirdeb. Mae'n debyg mai un o'r ffyrdd gorau ymlaen yw sefydlu rhwydwaith cyfnewid gwybodaeth o blith y tyfwyr. Gellid bwydo gwybodaeth i'r rhwydwaith hwn o'r farchnad ehangach.




*Gellirhyd, ger Crughywel yn y Mynydd Du a enillodd yn y categori "O'r Gorlan Organig" i gynhyrchwyr bach a chanolig yng Ngwobrwyon Gwir Flas 2002, am eu sudd afal organig o'r un enw, sydd ar gael mewn 35 o wahanol fathau. Daw'r afalau o hen berllan y fferm a blannwyd dros ganrif yn ôl, ac mae'r fferm hefyd yn cynhyrchu golosg a gwair.*

*Llun: ADC*

[15] Firth, C. et al. (2003) ***The UK Organic Vegetable Market***. Ryton, HDRA

# Canolfan Organig Cymru

## Amcanion a nodau

Sefydlwyd Canolfan Organig Cymru yn 2000 fel canolbwynt i daenu gwybodaeth am fwyd a ffermio organig yng Nghymru i gynhyrchwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb. Bu'i sefydlu'n cyflawni un o brif nodau cynllun gweithredu Cymru ar gyfer ffermio organig, ac roedd gan y Ganolfan gylch gwaith i gefnogi nodau'r cynllun gweithredu, ac yn arbennig i gyflwyno strategaeth wybodaeth gydlynol.

Yn ei chyfnod cyntaf (2000-2003), bu'r Ganolfan yn canolbwyntio'n bennaf ar gwrdd ag anghenion cynhyrchwyr, yn enwedig y rheini sy'n trosi i ffermio organig, drwy ddarparu llinell gymorth, hyfforddiant, cyngor, estyniad drwy'r ffermydd arddangos a ffynonellau gwybodaeth eraill, a thrwy gydlynu gwybodaeth am ymchwil ac anghenion ymchwil, fel ei fod ar gael drwy'r wefan a chyhoeddiadau dwyieithog. Bu'r Ganolfan hefyd yn ymateb i ymgynghoriadau polisi ar ran y Grŵp Strategaeth Organig. Disgrifir gweithgareddau'r Ganolfan yn ystod y cyfnod hwn yn fanylach ar y tudalennau a ganlyn.

Mae'r Ganolfan yn derbyn arian gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) a Chyswllt Ffermio (gyda chefnogaeth ychwanegol drwy Gyllid Amcan 5b EAGGF yr Undeb Ewropeaidd) i gyflawni'r swyddogaethau cydlynol ynghyd ag arian ychwanegol at ei gyflwyno drwy gontract Gwasanaeth Gwybodaeth Trosi Organig LlCC, Rhaglen Ddatblygu Organig Cyswllt Ffermio ac, yn flaenorol, cyllid Amcan 5b Ewropeaidd.

Gyda'r cynnydd cyflym yng nghyflenwad cynhyrchion organig a'r pwysau marchnata y mae hyn wedi'u creu, mae pwyslais y polisi wedi symud o annog cyflenwad i gynnal mesurau i ysgogi'r gofyn gan gynnwys addysg gyhoeddus a chaffael cyhoeddus. Fel rhan o ymateb y Gweinidog i adroddiad Pwyllgor ADG ar ddyfodol ffermio organig yng Nghymru (gweler tud. 5), rhoddwyd £240,000 y flwyddyn yn ychwanegol i Ganolfan Organig Cymru ar gyfer 2003-2006, gyda chylch gwaith penodedig i ymestyn ei ddarpariaeth o ran darparu gwasanaeth gwybodaeth i ddiwallu anghenion cynhyrchwyr i'r gadwyn gyflenwi gyfan, gan gynnwys darparwyr gwasanaeth. Bydd yn gwasanaethu defnyddwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb gan gefnogi datblygu strategaeth, helaethu cymhwysedd ac anghenion datblygu polisi'r gymuned organig yng Nghymru.

Mae amcan y Ganolfan felly wedi esblygu i gefnogi cyflawni nodau Cynllun Gweithredu Organig Cymru'n fwy cyffredinol, drwy gydlynu a chefnogi gwasanaethau i'r gymuned organig yng Nghymru. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu fel canolbwynt o ran hel data a thaenu gwybodaeth am fwyd a ffermio organig a darparu ffocws ar gyfer datblygu strategol a datblygu polisi, gan gynnwys datblygu'r farchnad, hwyluso'r gadwyn gyflenwi a chaffael cyhoeddus. Wrth wneud hyn y mae Canolfan Organig Cymru yn anelu at gyrraedd lefel ragoriaeth sy'n cyfiawnhau ei bod yn chwarae rhan flaenllaw, nid yn unig yng Nghymru ond hefyd yn y DU ac yn rhyngwladol.

*Andrew Jedwell, Cadeirydd Grŵp Llywio'r Ganolfan*



# Partneriaeth Canolfan Organig Cymru, staffio a rheoli 2002/03

Lleolir y Ganolfan ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth o dan reolaeth partneriaeth sy'n cynnwys pum corff, sy'n weithgar ym maes ymchwil ffermio a throsglwyddo gwybodaeth organig yng Nghymru: ADAS Wales, Canolfan Ymchwil Elm Farm (EFRC), Sefydliad Ymchwil Tir Glas ac Amgylcheddol (IGER), Sefydliad Astudiaeth Gwledig Prifysgol Cymru Aberystwyth (SAG) a'r Soil Association. Mae staff creiddiol y Ganolfan yn gyfrifol am gydlynu'r gwahanol feysydd gweithgarwch gyda'r partneriaid yn gyfrifol i raddau helaeth am ddosbaarthu'r gwasanaethau i gynhyrchwyr ac eraill.

Mae'r rhestrau isod yn cyfeirio at y cyfnod 2002/3; nid yw pob un yn gyfredol.

## Staff Canolfan Organig Cymru

Nic Lampkin, Cyfarwyddwr
Neil Pearson, Rheolwr
Sue Fowler, Swyddog Polisi a Datblygu
Rosie Boden, Swyddog Trosglwyddo
Carolyn Wacher, Cydlynydd Hyfforddiant a Digwyddiadau
Tony Little, Cydlynydd Gwasanaethau Ymgynghorol
Phil Jones, Swyddog y Linell Gymorth
Jane Powell, Swyddog Gwybodaeth
Andrew Jackson, Swyddog Meincnodi
Pat Elkins, Ysgrifennydd

### *Staff Cyswllt y Ganolfan*

David Frost, ADAS
Roger Hitchings, EFRC
Heather McCalman, IGER
Gwasanaethau Cynhyrchu, Soil Association

## Grŵp Rheoli'r Ganolfan

Nic Lampkin, Sefydliad Astudiaethau Gwledig, PCA a Chyfarwyddwr y Ganolfan
Neil Pearson, Rheolwr y Ganolfan
John Cook, ADAS
Phil Stocker, Soil Association
Richard Weller, IGER
Roger Hitchings, EFRC

## Grŵp Llywio'r Ganolfan

Andrew Jedwell, Cadeirydd
Alan Starkey, Llywodraeth Cynulliad Cymru
Arwyn Davies/ Kevin Thomas/ Gwawr Price/ Lisa Penny, Awdurdod Datblygu Cymru
Richard Weller/ Bryan Evans/Heather McCalman, IGER
Duncan Gardner, Lantra
Hilary Miller, Cyngor Cefn Gwlad Cymru
John Davies, Canolfan Bwyd Cymru
John Cook/Richard Collyer, ADAS
Phil Stocker, Soil Association
Jo Banks, ELWa
Louise Owen, Clybiau'r Ffermwyr Ifainc
Meinir Paske, Antur Teifi
Trystan Edwards, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Neil Pearson, Rheolwr y Ganolfan
Nic Lampkin, Cyfarwyddwr y Ganolfan
Nigel Elgar, Ffermwr/Cynhyrchwyr Graig Farm
Roger Hitchings, Canolfan Ymchwil Elm Farm
Tom Latter, Farmer/NFU Cymru
Bryan Walters, Farmer/FUW

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:03 AM Page 22

# Gwasanaethau Ymgynghorol

Tan 1996, nid oedd unrhyw gyngor ar drosi i reolaeth organig nac ar sut i'w pharhau a dderbyniai arian cyhoeddus yn y DU. Ers hynny, datblygwyd amrywiaeth o wasanaethau i ddarparu gwybodaeth i ffermwyr ar y dechrau wrth ystyried trosi, cynllunio busnes manwl a chyngor technegol arbenigol. Galluogwyd y rhain drwy gefnogaeth ariannol uniongyrchol ac anuniongyrchol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC) a chan yr Undeb Ewropeaidd drwy raglenni Amcan 5b a Chyswllt Ffermio.

Darperir y gwasanaethau gan ymgynghorwyr, a achredir gan y Ganolfan o ran cymhwysedd ffermio organig[16], a chan LANTRA a LlCC o ran cymhwysedd ymgynghorol a busnes. Daw'r ymgynghorwyr o gyrff partner y Ganolfan (ADAS, EFRC, y Gwasanaeth Cynghori Organig ac IGER) yn ogystal â grwpiau ymgynghorol eraill (Gaia Professional ac Abacus Organic Associates).

## Gwasanaeth Gwybodaeth Trosi Organig (OCIS)

Lansiwyd OCIS Cymru ym mis Hydref 1996 a'i amcan yw darparu'r wybodaeth sydd ei hangen ar ffermwyr sy'n ystyried trosi i wneud penderfyniadau hyddysg a ddylent drosi ai peidio. Mae'r gwasanaeth yn derbyn arian gan LlCC ac mae'n cynnig llinell gymorth a phecyn gwybodaeth a ddarperir gan y Ganolfan a hyd at ddau ymweliad ymgynghorol di-dâl a ddarperir gan ADAS a Gwasanaeth Cynghori Organig EFRC.



*Philip Jones, Swyddog y Llinell Gymorth yn y Ganolfan*

*Llun: Tony Little*

Hyd Ebrill 2002, rheolid OCIS gan ADAS, pryd y trosglwyddwyd y cyfrifoldeb i Ganolfan Organig Cymru. Trosglwyddwyd y llinell gymorth (01970 622100) a gynhaliwyd gynt gan y Soil Association i'r Ganolfan ym mis Ionawr 2001 i ddarparu ffocws mwy Cymreig a gwasanaeth dwyieithog.

Ers ei lansio yng Nghymru ym 1996, cofrestrwyd rhyw 3657 o ffermwyr â'r gwasanaeth (13% o holl ddaliadau Cymru). Cafwyd cyfanswm o 2935 o ymweliadau ymgynghorol â 1929 o ffermwyr. Mae ymholiadau wedi dod o bob cwr o Gymru ac o bob sector[17]. Mentrau eidion a defaid oedd y rhan fwyaf o ffermydd yr ymwelwyd â hwy. Fe'i dilynwyd gan y sector llaeth, er i broblemau marchnata a gorgyflenwi leihau'r diddordeb yn y sector hwn yn ddiweddar i lond dwrn yn unig yn 2002/03.

Nodwyd sawl cyfeiriad y dylai'r gwasanaeth eu dilyn gan adolygiad[18] arno ym mis Hydref 2001, gan gynnwys hygyrchu cyngor a chymorth cynllunio, cryfhau'r elfennau marchnata, ariannol, iechyd/lles anifeiliaid ac amgylcheddol y OCIS ynghyd â darparu cefnogaeth ôl-OCIS. Mae newidiadau i OCIS a chreu cysylltiadau effeithiol â phrosiectau a gwasanaethau eraill, yn bennaf drwy Gyswllt Ffermio, yn galluogi unioni llawer iawn o'r materion hyn.




[16] OCW Ffeithlen 5. ***Cofrestr ymgynghoryddion organig achrededig.*** Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/factsheets/ADVISORSew.pdf

[17] Mae gwerthusiad ystadegol manwl o OCIS o 1996/7-2001 wedi'i gyhoeddi gan ADAS-2001/2: Frost, D. et al. (2002) ***Information and conversion – OCIS in Wales,*** 1996-2001. ADAS, Pwllpeiran. Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/ocisinwales.pdf

[18] OCW (2001) ***A Review of the Organic Convrsion Information Service (OCIS) in Wales (1996-2001).*** Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/OCISreview2001.pdf

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:03 AM Page 23

## Cyngor ar drosi a chynllunio busnes

O 1999 i 2001, bu grantiau 50% at gynllunio trosi a chyngor perthnasol ac Archwiliad Iechyd Ariannol Busnes di-dâl ar gael, drwy gyllid rhaglen Ddatblygu Organig EAGGF Amcan 5b dan arweiniad ADC. Mae 35 o ffermwyr wedi elwa o'r gwasanaeth hwn.

Ers 2001, bu'r rhan fwyaf o'r cyngor i ffermwyr (organig a chonfensiynol) sy'n derbyn cyllid cyhoeddus ar gael drwy Gyswllt Ffermio, a gefnogir yn ariannol gan LlCC a chyllid (EAGGF) Amcan 1 Ewropeaidd. Y Ganolfan, ynghyd â LlCC, sy'n gyfrifol am sicrwydd ansawdd y cyngor organig a ddarperir.

Mae Cyswllt Ffermio'n darparu Cynllun Datblygu Busnes Fferm (CDBFf), sy'n edrych ar gyfeiriadau i'r dyfodol, yn archwilio ffyrdd o wella incwm y fferm ac yn nodi anghenion hyfforddiant. Mae'r cyngor yn cynnwys cyfle i ffermwyr baratoi cynllun manwl[19] ar gyfer trosi i systemau organig sy'n cynnwys agweddau technegol ac ariannol. O'r 5827 CDBFf a gwblhawyd, bu 125 yn gysylltiedig â throsi i systemau organig neu â'u datblygu.

## Cyngor technegol arbenigol

Mae Cyswllt Ffermio hefyd yn darparu diwrnod di-dâl ar gyfer cyngor technegol i gefnogi'r cynllun busnes. Ymhlith y testunau cyngor y ceisiwyd amdanynt hyd yn hyn ceir lletyad da byw i gyrraedd safonau organig, cynnal ffrwythlondeb y pridd, cylchdroadau pori glân i eidion a defaid, rheoli tir glas, cyrff tystysgrifio organig a chadw cofnodion. Hyd yn hyn, darparwyd 38 diwrnod o gyngor technegol organig o dan y gwasanaeth hwn.

## Prosiect Trosglwyddo Technoleg Tir Glas IGER (GTTP)

Bu IGER yn cynnal rhaglen estynnol yng Nghymru ers 1995 sy'n cynnwys elfen organig arbennig. Cyfyngedig yw cylchdroadau ar draws Cymru, lle y ceir tir glas yn bennaf, ac mae'n bwysig datrys anawsterau sy'n codi yn sgil safonau organig. Mae'r prosiect wedi cyfuno arferion estynnol traddodiadol â chysyniadau megis y rhwydwaith Ffermydd Ffocws, seiliedig ar Raglen Rhwydwaith Monitro Ffermydd yn Seland Newydd. Adlewyrchir lefel y diddordeb mewn ffermio organig gan y ffaith fod gan 32% o ffermwyr yng nghronfa ddata GTTP ddiddordeb yn y rhaglen organig.

Ymhlith y gweithgareddau, ceir ymweliadau ymgynghorol un-wrth-un, grwpiau trafod a ffermydd arddangos, diwrnodau hyfforddi, ffeithlenni, y bwletin Grass Focus Organig[20], llinell gymorth i ymholiadau tir glas ac erthyglau. Mae dau Grŵp Ffocws i Ffermydd wedi'u sefydlu, y naill ar fferm eidion a defaid a'r llall ar fferm laeth a chnydio, ac ymhlith y testunau dan sylw ceir strwythur y pridd, rheoli ffrwythlondeb, cyllidebau maeth, materion yn ymwneud â safonau, cynllunio cylchdroadau a rheoli chwyn. Hefyd, cafwyd prosiectau ar raddfa cae ar y ffermydd ffocws, gan gynnwys defnyddio gwyndynnau meillion coch a gwyn a had organig. Ers 2001, mae'r gweithgareddau hyn, a dderbyniai gyllid yn wreiddiol gan brosiect Trosglwyddo Technoleg Tir Glas EAGGF Amcan 5b dan arweiniad IGER, bellach yn rhan o Gyswllt Ffermio.

*Bryan Evans o IGER a chlinig silwair mewn digwyddiad fferm arddangos*

*Lluniau: Rosie Boden*






[19] OCW Ffeithlen 1: Gwybodaeth/Cyngor am Drosi Organig a Chyswllt Ffermio. Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/factsheets/FBDPOCISeng.pdf

[20] Gweler www.organic.aber.ac.uk/Grass%20Focus/index.html

# Grwpiau Trafod a Ffermydd Arddangos

Grwpiau trafod a ffermydd arddangos yw'r prif gyfrwng ar gyfer gwaith estynnol mwy cyffredinol sy'n seiliedig ar grwpiau. Mae rhwydwaith Cymru, a gydlynir gan y Ganolfan, yn adeiladu ar brofiad partneriaid y Ganolfan sy'n cynnal rhwydweithiau tebyg yng Nghymru a Lloegr, a chefnogaeth ariannol gan LlCC ac Amcan 5b EAGGF (1999-2001) a ffynonellau Amcan 1 EAGGF drwy Gyswllt Ffermio ers 2002.

## Y Grŵp Organig Cambriaidd

Sefydlwyd y Grŵp Organig Cambriaidd (COG) ym 1996 gan ADAS â nawdd Amcan 5b EAGGF. Byddai'r grŵp yma o ffermwyr yn cyfarfod yn rheolaidd am dair blynedd gan drefnu rhaglen o deithiau cerdded ar ffermydd a sgyrsiau gan siaradwyr gwadd. Bu'r COG hefyd yn cyhoeddi cylchlythyr rheolaidd i hyrwyddo cyfathrebu rhwng cynhyrchwyr organig yng Nghymru gan gynnal cyrsiau rheolaidd i ffermwyr â diddordeb mewn cynllunio trosi i ffermio organig.

O 1999 i 2001, aethpwyd â'r prosiect gam ymhellach pan ddefnyddiwyd cyllid 5b ychwanegol i gyflogi dau hwylusydd a sefydlu grwpiau cynhyrchwyr rhanbarthol ledled Cymru. Cynhaliwyd y cyfarfodydd cyntaf ym mis Ionawr 2000 ym mhob un o'r chwe rhanbarth. Roedd y chwe grŵp COG a ddaeth i'r fei yn cynnwys cynhyrchwyr organig, cynrychiolwyr o gyrff megis LEADER, y Bartneriaeth Amaeth-Bwyd a grwpiau lleol eraill. Dros y ddwy flynedd nesaf, cynhaliodd COG 70 o gyfarfodydd a theithiau cerdded ar ffermydd fin nos gan fynd i'r afael ag amrywiaeth eang o faterion technegol o foch ac amaeth-parhaol i reoli tir glas a marchnata cynnyrch organig. Yn ystod y cyfnod hwn, daeth cylchlythyr deufisol y COG a'i daflen ddigwyddiadau'n ganolbwynt ar gyfer gwybodaeth am ddigwyddiadau'n ymwneud ag amaethyddiaeth gynaliadwy yng Nghymru.

Roedd Prosiect 5b ar wahân ADAS, Cig Eidion o Safon yng Nghymru, yn cynnwys grŵp trafod organig llwyddiannus a ffermydd arddangos cysylltiedig yng Nghefn Llech, ger Rhaeadr Gwy a Frongoch, PCA. Cynhaliodd y grŵp amrywiaeth eang o ddiwrnodau agored a chyfarfodydd â siaradwyr gwadd, ac roedd y ddau adroddiad ar y prosiect yn cynnwys dadansoddiadau manwl o gynhyrchu cig eidion yng Nghymru.

Adolygwyd profiad y COG yn fanwl ar ddiwedd 2001[21], gan gynnig cynsail ar gyfer datblygu cynlluniau tebyg yn y pen draw â chefnogaeth Cyswllt Ffermio yn 2002/03, gan alluogi rhai, ond nid pob un, o grwpiau'r COG i barhau.

## Grwpiau trafod Cyswllt Ffermio

Mae Cyswllt Ffermio wedi creu'r cyfle i rwydwaith newydd o grwpiau trafod organig i ymsefydlu. Mae cyllid ar gyfer digwyddiadau a chefnogaeth weinyddol ar gael gan Gyswllt Ffermio drwy'r Ganolfan. Yn 2002/03, roedd chwe grŵp arbenigol annibynnol rhanbarthol. Tyfwyr Organig y Gogledd-Orllewin, Grŵp Organig Sir Benfro, Grŵp y Nags Head yn Sir Gâr, Grŵp Canolbarth Powys, Grŵp Llaeth Mynwy a Grŵp Eidion a Defaid Mynwy. Mae dau grŵp masnachol, Graig Farm Producers a Cambrian Organics, gydag wyth is-grŵp rhyngddynt hefyd yn derbyn cefnogaeth. Dewisir a threfnir digwyddiadau gan y grŵpiau eu hunain gan gynnwys ymweliadau â ffermydd aelodau, ymweliad â Fferm Duchy, cyfarfodydd â homeopathydd, ymweliad gan staff IGER, a sgyrsiau ar destunau a amrywia o gywarch i reoli biswail i farchnata cig a'r ysfa.

[21] Lampard, J. and C. Porter (2002) *Developing the infrastructure for organic farming in Wales. Project Evaluation January 2000 - December 2001*. ADAS Pwllpeiran. Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/cogreview.pdf.

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:04 AM Page 25

# Ffermydd arddangos

Sefydlwyd rhwydwaith ffermydd organig arddangos cyntaf Cymru gan y Ganolfan ag arian Amcan 5b EAGGF yn 2000. Y rhain oedd Tŷ Gwyn (IGER), Llanerchaeron (Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Bryn Cocyn, Pwllpeiran (ADAS), Cefn Llech, Cannon Farm, Frongoch (PCA), Penrhiw, Groes Bach, Porthamel a Rogerswell. Cynhaliwyd teithiau cerdded ar ffermydd ac amrywiaeth o ddigwyddiadau technegol i ffermwyr ar y ffermydd hyn, gan roi cyfle i ffermwyr confensiynol i weld ffermio organig drostynt eu hunain, ac i bob ffermwr i ddysgu mwy am dechnegau organig. Yn 2001, dyma glwy'r traed a'r genau'n atal pob digwyddiad fferm, a phenderfynwyd yn lle hynny i gynhyrchu fideo[22] gan gynnwys y ffermydd arddangos.

Gyda dyfodiad Cyswllt Ffermio yn 2002, sefydlwyd rhwydwaith newydd o ffermydd arddangos masnachol. Hyd yn hyn, mae pedair fferm ar waith, Porthamel, Ynys Môn (eidion, defaid, dofednod, llysiau), Cannon Farm ger y Trallwng (eidion a defaid yr ucheldir), Groes Bach, Sir Ddinbych (llaeth) a Maesterran ger Machynlleth (eidion a defaid). Mae pedair fferm arall yn y cyfnod sefydlu ac mae dwy arall ar y gweill i'r dyfodol, gydag amrywiaeth o fentrau gan gynnwys wyau, âr a garddwriaeth.



Hefyd, ceir ar hyn o bryd dair fferm datblygu sefydliadol: uned eidion a defaid mynydd organig ADAS Pwllpeiran, uned laeth organig Tŷ Gwyn IGER ac uned organig Coleg Garddwriaeth Cymru yn Sir y Fflint (saladau a llysiau, o'r maes a pholitwneli).

Ers i raglen Cyswllt Ffermio ddechrau, mae 11 digwyddiad wedi'u cynnal ar ffermydd arddangos a saith ar ffermydd datblygu, a fynychwyd gan ryw 1200 o ffermwyr.

*Mae Gareth Williams yn amaethu yn Fferm Porthamel, fferm 39 ha a leolir ar Ynys Môn sy'n edrych dros Afon Menai. Mae'r fferm yn cynnwys buches sugno ddu Gymreig, diadell o famogiaid magu Texel a 250 o ieir dodwy ochr yn ochr â llysiau maes a pholitwneli. Tystysgrifiwyd y fferm yn organig gan y Soil Association ym 1999 ac mae'n gweithio â Menter Môn i ddatblygu cyfleoedd prosesu a marchnata lleol.*



*Fferm Porthamel*

*Lluniau: IGER, Rosie Boden*

[22] ***Meddwl am fynd yn organig?*** fideo ar gael gan Ganolfan Organig Cymru.

# Cyrsiau Hyfforddiant a Digwyddiadau

## Cyrsiau hyfforddiant technegol

Bu darparu cyrsiau hyfforddiant i ffermwyr ar faterion technegol sy'n ymwneud â chynhyrchu'n organig yn ganolog i'r gwasanaethau a gyflwynir i ffermwyr gan y Ganolfan Organig. Yn ystod 1999-2001, cynhaliwyd cyfanswm o 52 o gyrsiau a fynychwyd gan 450 o ffermwyr o dan ddau Brosiect Ffermio Organig a dderbyniai arian drwy Amcan 5 EAGGF, y naill dan reolaeth ADAS Pwllpeiran a'r llall gan ADC, er i'r rhaglen gael ei chwtogi'n fyr gan y traed a'r genau. Ers 2002, gyda chyllid gan Gyswllt Ffermio, mae'r Ganolfan wedi trefnu 30 o gyrsiau eraill, gan gyrraedd dros 500 o ffermwyr.

Mae'r profiad gyda chyrsiau hyfforddi cynhyrchwyr wedi'i werthuso fel rhan o adolygiad rhaglen 5b y Grŵp Organig Cambriaidd[23]. Y testunau mwyaf poblogaidd oedd rheoli cnydau a thir glas gyda chyrsiau ar borfa barhaol, cnydau helfwyd a ffrwythlondeb pridd i gyd yn denu'n dda. Bu testunau'n ymwneud ag iechyd anifeiliaid hefyd yn boblogaidd, gyda chyrsiau ar homeopathi, cynlluniau iechyd anifeiliaid, cyfrif wyau ysgarthol a rheoli parasitiaid yn cael eu cynnal mewn amryw o wahanol ganolfannau ledled Cymru.

## Cyrsiau datblygu proffesiynol

Trefnwyd un ar bymtheg o gyrsiau datblygu proffesiynol yn ymwneud â sefydliadau a chwmnïau sy'n darparu gwasanaethau i gynhyrchwyr organig gan gynnwys milfeddygon sy'n gysylltiedig a BVA De Cymru; Banc NatWest; swyddogion Tir Gofal CCGC; swyddogion Safonau Masnach; cysylltwyr Cyswllt Ffermio; gweithwyr/wragedd Amaethwyr Wynnstay ac Undeb Ffermwyr y Merched. Trefnir cyrsiau hefyd i ymgynghorwyr achrededig y Ganolfan fel rhan o broses sicrwydd ansawdd Cyswllt Ffermio.

## Stondinau popeth

Syniad newydd oedd cyflwyno stondinau-popeth organig mewn canolfannau ledled y wlad a'r bwriad oedd rhoi cyfle i ffermwyr siarad â chynrychiolwyr y cyrff dan sylw wrth ddarparu cyngor organig, tystysgrifio a chefnogaeth ariannol heb orfod trefnu apwyntiad. Cefnogwyd y digwyddiadau gan gynrychiolwyr Llywodraeth Cynulliad Cymru, y Soil Association, Organic Farmers and Growers, ADAS, y Gwasanaeth Cynghori Organig, IGER, Tir Gofal, ADC a chyrff eraill. Mae wyth stondin-popeth wedi'u cynnal, gan ddenu llawer iawn o ddiddordeb gydag oddeutu 40 o ffermwyr bob tro.

*Stondinau Gwir Flas yr ADC yn Organex ac Olympia*



*Lluniau: ADC*

[23] Lampard, J. and C. Porter (2002) *Developing the infrastructure for organic farming in Wales. Project Evaluation January 2000- December 2001.* ADAS Pwllpeiran. Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/cogreview.pdf.

## Agor Canolfan Organig Cymru yn swyddogol gan Dywysog Cymru

Yn dilyn agor swyddogol Canolfan Organig Cymru gan Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad Cenedlaethol, Christine Gwyther AC ar 20 Mehefin 2000, anrhydedd i'r Ganolfan Organig oedd cael ymweliad gan Dywysog Cymru y flwyddyn ganlynol ar 20fed Gorffennaf 2001. Ar ôl ymweliad byr â Marchnad y Ffermwyr yn Aberystwyth, bu'r Tywysog Siarl yn mynychu derbyniad bychan ynghyd ag aelodau staff, cynrychiolwyr partneriaid y Ganolfan, ffermwyr ac eraill. Atgyfnerthwyd cyflwyniadau poster o waith y Ganolfan gan y rheini a oedd yn mynd drwy'r broses drosi. Dangosodd y Tywysog ddiddordeb a dealltwriaeth sylweddol.



Llun: Alison Vaughan

## Cynadleddau

Denodd Digwyddiadau Bwyd a Ffermio Organig Cymru a gynhaliwyd yn Hwlffordd yn hydref 2000 a 2001, a drefnwyd gan Gymru Organig Cyf. gyda chyfraniad gan y Ganolfan a chefnogaeth ariannol gan ADC, LlCC a noddwyr masnachol, tua 200 o gynhyrchwyr, busnesau organig, siaradwyr ac eraill o'r sector organig ar bob achlysur. Bu'n rhaid gohirio digwyddiad cyffelyb yn yr arfaeth ar gyfer mis Hydref 2002, a drefnwyd ar y cyd gan y Ganolfan Organig, y Soil Association a Chymru Organig Cyf., ond mae wedi'i ad-drefnu ar gyfer mis Hydref 14 2003 yn Llanfair ym Muallt. Gosodwyd ffermio organig mewn cyd-destun ehangach o ran ystyriaethau polisi a phryderon cyhoeddus gan gynhadledd Bwyd, Iechyd, Tirlun a Diwylliant a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ym mis Medi 2001, a drefnwyd gan y Soil Association ar y cyd â'r Ganolfan.

Bu'r Ganolfan yn cynnal cynhadledd UK Organic Research 2002 ym Mhrifysgol Cymru, Aberystwyth ym mis Ebrill 2002 (gweler tud. 28).

## Sioeau, gwyliau bwyd a ffeiriau masnach

Cynrychiolwyd y Ganolfan a'i phartneriaid mewn llawer iawn o ddigwyddiadau amaethyddol ledled Cymru ers 2000, gan gynnwys tair sioe ranbarthol, y Siroedd Unedig, Sioe Môn a'r Ffair Ffermio yn 2002. Bu'r Ganolfan yn cydlynu Canolfan Bwyd a Ffermio Organig newydd yn yr adran Gofal am Gefn Gwlad yn Sioe Frenhinol Cymru, a bu stondin hefyd gan y Ganolfan a rhai o'i phartneriaid yn y Ffair Aeaf yn 2001 a 2002. Mae'r Ganolfan hefyd wedi mynychu digwyddiadau Defaid a Llaeth Cymreig.

Bu cynrychiolaeth dda i gynhyrchwyr organig mewn ffeiriau bwyd a gwyliau o gwmpas Cymru. Cynhelir rhyw 45 digwyddiad o'r fath yn ystod misoedd yr haf wedi'u noddi gan ADC. Drwy ADC, cynrychiolwyd busnesau organig Cymru yn yr Arddangosfa Cynnyrch Naturiol yn Olympia, a bu rhai o gwmnïau organig Cymru'n bresennol yn BioFach, ffair ryngwladol y fasnach organig yn yr Almaen.

Ym mis Mawrth 2003, trefnodd Cymru Organig Cyf, Brofiad Bwyd Organig Cymru yng Nghaerdydd, ffair fasnach undydd i fusnesau organig i hyrwyddo eu cynnyrch i brynwyr a'r cyhoedd, gyda chefnogaeth ariannol eto gan ADC a noddwyr masnachol.

# Ymchwil a Datblygu

Gwneir ymchwil i amaethyddiaeth organig mewn sawl sefydliad yng Nghymru, gan gynnwys ADAS, IGER a Phrifysgol Cymru. Fel arfer, bydd yr ymchwil hon yn derbyn arian gan yr UE neu DEFRA a hynny ar draws y DU, gyda chynghorau ymchwil y DU yn dechrau darparu adnoddau ychwanegol. Rhan gyfyngedig iawn sydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac ADC wrth gyllido ymchwil. Nid yw'r Ganolfan yn ymwneud yn uniongyrchol â chynnal ymchwil, gan ymwneud yn fwy â thaenu canlyniadau ymchwil ac adnabod blaenoriaethau ymchwil. Fodd bynnag, cynhelir nifer gyfyngedig o brosiectau datblygu a gydlynir gan y Ganolfan ac sy'n cael eu cefnogi gan Raglen Ddatblygu Organig Cyswllt Ffermio.

## Llaeth organig – trosi, economeg a strategaethau cynhyrchu

Bu ymchwil i gynhyrchu llaeth organig yn uned laeth organig IGER, Tŷ Gwyn ger Aberystwyth ers 1992, ar y cyd â'r Sefydliad Astudiaethau Gwledig (IRS). Yn y ddau gyfnod cyntaf, a dderbyniodd gyllid gan DEFRA a'r UE, dilynwyd Tŷ Gwyn a 10 fferm laeth fasnachol drwy'r broses drosi a thu hwnt, gan fonitro eu cynhyrchu a pherfformiad economaidd.

Ers 1998, bu ymchwilwyr yn IGER ac IRS yn cymharu dwy system gynhyrchu, y naill yn ddull hunangynhaliol lle y tyfir y bwydydd ar y fferm, a'r llall yn prynu dwysfwydydd organig. Mae crynodeb o'r canlyniadau yn cael ei baratoi fel arweinlyfr technegol gan y Ganolfan.[24]

## Eidion a defaid mynydd a'r ucheldir

Yn ystod y 1990au, bu ymchwil organig yn ADAS Pwllpeiran, Ceredigion yn canolbwyntio ar gymharu'r uned organig â gweddill y fferm o ran cynhyrchu anifeiliaid, effeithiau amgylcheddol a pherfformiad ariannol[25]. Ers hynny, mae'r ffocws wedi newid ac mae'r pwyslais ar wella perfformiad systemau organig yr ucheldir drwy waith ar iechyd anifeiliaid, rheoli tir glas ac integreiddio ffermio organig â chynlluniau amaeth-amgylcheddol.

## Parasitiaid

Bu dulliau arloesol ar gyfer rheoli parasitiaid mewnol wrth gynhyrchu defaid organig yn ffocws i ymchwil ar y cyd gan ADAS, IRS a phartneriaid eraill, a gyllidwyd gan DEFRA. Dangosodd treialon yn IRS o 1997 i 2000 botensial rhywogaethau helfwyd megis ysgellog a physen y ceirw i leihau problem parasitiaid o dan yr amodau sydd yng Nghymru. Mae gwaith pellach i sefydlu ffisioleg anifeiliaid ac ecoleg borfa wedi'i barhau yn yr Alban a Chymru, yn enwedig yn y Frongoch, IRS, ADAS Pwllpeiran ac IGER ac ar ddwy fferm fasnachol yng Nghymru yn ogystal.

## Materion cymdeithasol-economaidd: polisi, marchnata a busnes

Mae ymchwil gymdeithasol-economaidd ar ffermio organig yn y Sefydliad Astudiaethau Gwledig[26], PCA, wedi canolbwyntio ar bedwar prif faes: datblygu polisi'r UE tuag at ffermio organig (dau brosiect dan nawdd yr UE o 1997-2000 a 2003-2005), mentrau marchnata organig a phrosiect datblygu gwledig (OMIaRD, dan nawdd yr UE, 2000-2003); monitro incwm fferm organig (dan nawdd DEFRA),

[24] IGER (2003) *Cynhyrchu Llaeth Organig: Taflen Dechnegol 1. Allbwn system seiliedig ar hunangynhaliaeth porthiant. Taflen dechnegol 2: Canlyniadau o system seiliedig ar ddwysfwydydd a brynir.* Yn y wasg

[25] Gweler: Frost, D. (2002) *Ffermio organig yn ADAS Pwllpeiran 1993-2001.* Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/adroddiadpwll.pdf

[26] Gweler www.irs.aber.ac.uk/research/agroecology.shtml am fanylion am brosiectau a chyhoeddiadau.

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:05 AM Page 29

meincnodi (Cyswllt Ffermio) ac ystadegau (dan nawdd yr UE/DEFRA) ac agweddau economaidd, technegol a chymdeithasol ar drosi i gynhyrchu'n organig.

## Prosiectau datblygu Cyswllt Ffermio

Yn 2002/03, bu Rhaglen Ddatblygu Organig Cyswllt Ffermio'n cefnogi cyfres o brosiectau datblygu technegol a busnes, gan gynnwys meincnodi costau cynhyrchu o fentrau llaeth, eidion a defaid organig, datblygu cynhyrchu hadau helfwyd organig yng Nghymru, adolygu arbrofion a phrofiadau ffermwyr â hadau garddwriaethol organig; gweithdai rheoli plâu ac afiechydon cnydau; arolwg o ddulliau dipio a gweithdrefnau ar gyfer rheoli ectoparasitiaid a braenedd y traed; adolygiad o fridiau da byw a systemau ffermio organig; ac adolygiad o faterion sy'n ymwneud â diwallu'r angen yn 2005 am fwydydd organig 100%. Bydd adroddiadau am y prosiectau hyn ar gael o'r Ganolfan yn ystod 2003.

## Cynhadledd *UK Organic Research 2002*


Cynhaliwyd cynhadledd *UK Organic Research 2002 – Research in Context*[27] yn Aberystwyth ar wahoddiad y Ganolfan. Hon oedd y gynhadledd gyntaf i'w threfnu o dan nawdd y Colloquium of Organic Researchers (COR) yn y DU. Lluniwyd y rhaglen i hyrwyddo dulliau system-gyfan wrth ymchwilio i ffermio organig, gan ddwyn at ei gilydd economegwyr, ecolegwyr, gwyddonwyr bwyd, ystadegwyr, ffermwyr ac eraill i wella llif yr wybodaeth rhwng ymchwilwyr a defnyddwyr ac i ymdrin ag anghenion cynulleidfa o'r DU a rhyngwladol. Wedi'i noddi gan Waitrose, Adran Amaeth y Cynulliad, DEFRA, Banc Triodos ac ADC, denodd y gynhadledd 238 o gynadleddwyr, ymchwilwyr yn bennaf ond hefyd rhai cynhyrchwyr. Bydd cynhadledd nesaf COR yn digwydd ar y cyd a'r BGS ac AAB ym mis Ebrill 2004 yng Ngholeg Prifysgol Harper Adams, Swydd Amwythig.

## Adolygiadau blaenoriaeth ymchwil

Yn 2001, fel rhan o'i gylch gwaith, paratôdd y Ganolfan adolygiad[28] o flaenoriaethau ymchwil i ffermio organig i Lywodraeth Cynulliad Cymru, a gymeradwywyd gan y Grŵp Strategaeth Organig ym mis Medi 2001. Nodwyd cyfres o 13 o feysydd ymchwil, gyda'r argymhelliad y dylai LlCC gyfleu hyn i DEFRA.

Ar sail yr adolygiad Cymreig, gofynnwyd i'r Ganolfan baratoi papur tebyg i UKROFS yng nghyd-destun adolygiad DEFRA 2001 i ymchwil ffermio organig. Danfonwyd cais at y cynhyrchwyr, proseswyr, ymchwilwyr ac eraill am eu barn, a chyhoeddwyd papur.[29] Yn dilyn yr adolygiad, cyhoeddodd DEFRA ei ddatganiad blaenoriaethau ei hun. Yng nghyd-destun Cynllun Gweithredu Lloegr i ffermio organig, cyhoeddwyd gan DEFRA y byddai eu cyllideb £2 miliwn flynyddol ar gyfer ymchwil organig yn cael ei hategu gan £5 miliwn yn ychwanegol dros bum mlynedd drwy raglen LINK a oedd yn gofyn am gyllid cyfatebol gan ddiwydiant.




[27]Powell, J. et al. (2002) *UK organic research 2002. Proceedings of the COR conference, 26-28th March 2002, Aberystwyth.* Gwelerwww.organic.aber.ac.uk/Conference/proceedings.shtml
[28]OCW (2001) *Organic farming R&D priorities – a Welsh perspective.* Gweler: www.organic.aber.ac.uk/research/ukrofs/revisedwelsh.doc
[29]OCW (2001) *2001 Consultation of organic farming research priorities in the UK.* Gweler www.organic.aber.ac.uk/research/ukrofs/UK%20R&D.doc

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:06 AM Page 30

# Cyhoeddiadau

Mae Canolfan Organig Cymru wedi cyhoeddi amrywiaeth o wybodaeth brintiedig ac electronig i ffermwyr ac eraill. Mae'r wefan www.organic.aber.ac.uk yn cynnwys llyfrgell ddogfennau[30] â dros 150 o eitemau ymchwil, dolennau â gwefannau eraill sy'n ymdrin ag ymchwil organig, gwybodaeth am drosi a gwasanaeth ymgynghorol, rhestr ddigwyddiadau, adroddiadau ar ffermydd arddangos a digwyddiadau eraill, ffeithlenni a gwybodaeth gyffredinol. Ychwanegiad diweddar yw tudalen lle y gall cynhyrchwyr osod hysbysebion ar gyfer nwyddau a gwasanaethau.

Yn gysylltiedig â'r wefan ers 2001, ceir e-fwletin di-dâl, Organic Wales, a ddosberthir yn fisol i dros 400 o danysgrifwyr ac sy'n cynnwys newyddion a chysylltiadau ar fwyd a ffermio organig yng Nghymru a'r tu hwnt. Ymddangosodd ail fwletin, Marchnad Organig Cymru, yn canolbwyntio ar faterion yn ymwneud â gwybodaeth am y farchnad ac a baratowyd gan staff yn ADAS Cymru, yn 2002 ac fe'i cyhoeddir yn fisol hefyd.

Bydd bob amser ofyn am gyfryngau printiedig. Yn ogystal â dosbarthu rhyw 20 o arweinlyfrau ac adroddiadau technegol[31] a gyhoeddwyd gan gyrff yn y bartneriaeth ac eraill, mae'r Ganolfan wedi cyhoeddi fersiynau dwyieithog o arweinlyfrau'r Soil Association, IGER ac ADAS/EFRC. Ategir y rhain gan amrywiaeth o ffeithlenni, yn ymdrin â materion technegol, cynlluniau grant, ffynonellau mewnbynnau a materion eraill. Fel arfer bydd arweinlyfrau technegol, ffeithlenni ac adroddiadau a gynhyrchwyd gan y Ganolfan hefyd ar gael drwy'r wefan.

Mae'r Ganolfan yn cyhoeddi pecyn gwybodaeth cynhwysfawr ar gyfer cynhyrchwyr sy'n ystyried trosi. Fe gynnwys hwn amrywiaeth o arweinlyfrau technegol a ffeithlenni, yn ogystal â chopi di-dâl o'r Llawlyfr Rheoaeth Fferm Organig a'r cylchgrawn Organic Farming. O ganlyniad i Glwy'r Traed a'r Genau a rwystrodd fynediad i ffermydd arddangos, cynhyrchwyd fideo Meddwl am fynd yn Organig?, gan y Ganolfan, gyda fersiynau Cymraeg a Saesneg ar gael a ddosbarthwyd am ddim gyda'r pecynnau gwybodaeth.


Yn 2002, danfonwyd cylchlythyr organig di-dâl, Tir Organig, yn cynnwys gwybodaeth am ddigwyddiadau arfaethedig a gweithgareddau newydd o dan Gyswllt Ffermio at 2600 o gynhyrchwyr a chanddynt ddiddordeb. Dyma ymgais i lenwi bwlch hen gylchlythyr y Grŵp Organig Cambriaidd. Fodd bynnag, ni sicrhawyd cyllid i wneud Tir Organig yn gyhoeddiad rheolaidd.

Yn haf 2003, dosberthir papur newydd organig di-dâl, Cymru Organig – Organic Food and Farming in Wales, wedi'i anelu at y cyhoedd drwy sioeau, marchnadoedd, busnes a ffermydd, gan ddarparu cyfle i'r sector organig i ddweud hanes ffermio organig yng Nghymru.

Mae'r Ganolfan hefyd yn cyhoeddi erthyglau'n rheolaidd i'w cyhoeddi yn Gwlad, cylchgrawn di-dâl Llywodraeth y Cynulliad i ffermwyr yng Nghymru ac yn ogystal â chyfrannu at wahanol gyfryngau gan gynnwys teledu, radio a'r papurau newydd. Mae llyfryn y Ganolfan "Meddwl am fynd yn Organig?" wedi'i ddosbarthu i holl gynhyrchwyr Cymru drwy Gwlad, Y Tir a Farming Wales.






[30]www.organic.aber.ac.uk/lib.shtml
[31]Gweler www.organic.aber.ac.uk/publications.shtml

# Llyfryddiaeth

## Llyfrau ac adroddiadau


Bassett, A. (2003) *Organic red meat development in Wales*. OCW, Aberystwyth. At: www.organic.aber.ac.uk/library/redmeat2003.pdf

Bassett, A. (2003) *Improving market intelligence for the organic red meat sector in Wales*. Soil Association/OCW. See www.organic.aber.ac.uk/library/MIredmeat.pdf

Frost, D. (2001) *Organic farming at ADAS Pwllpeiran 1993-2001*.www.organic.aber.ac.uk/library/pwll19932001.pdf

Frost, D. et al. (2002) *Information and conversion – OCIS in Wales, 1996-2001*. ADAS, Pwllpeiran. www.organic.aber.ac.uk/library/ocisinwales.pdf

Hancock, J and R. Haward (2003) *Improving market intelligence for organic dairy production in Wales*. Soil Association/OCW. See www.organic.aber.ac.uk/library/MIdairy2003.pdf

Hancock, J. et al. (2003) *100% Organic livestock feeds – preparing for 2005*. Soil Association/OCW. www.organic.aber.ac.uk/library/feeds2005.pdf

Lampard, J. and C. Porter (2002) *Developing the infrastructure for organic farming in Wales. Project Evaluation January 2000- December 2001*. ADAS Pwllpeiran. See Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/cogreview.pdf.

Lampkin, N., Measures, M. and Padel, S. (eds.) (2001, 2002) *Organic farm management handbook*. Institute of Rural Studies, UWA and Elm Farm Research Centre.

OCW (2001) *Consultation on organic farming research and development priorities in Wales*.www.organic.aber.ac.uk/research/ukrofs/revisedwelsh.doc

OCW (2001) *2001 Consultation of organic farming research priorities in the UK*. www.organic.aber.ac.uk/research/ukrofs/UK%20R&D.doc

OCW (2001) *A review of the Organic Conversion Information Service (OCIS) in Wales (1996-2001)*. www.organic.aber.ac.uk/library/OCISreview2001.pdf

Powell, J. et al. (2002) *UK organic research 2002. Proceedings of the COR conference, 26-28th March 2002, Aberystwyth*. Gweler www.organic.aber.ac.uk/Conference/proceedings.shtml

Soil Association/Taylor Nelson Sofres (2003) *Organic purchasing triggers*, yn y wasg.


## Arweinlyfrau technegol dwyieithog[32]

*Ffermio organig*. Llywodraeth Cynulliad Cymru/Canolfan Organig Cymru

*Cynhyrchu llaeth organig*. 1. Cynnyrch a pherfformiad y fferm. IGER

*Cynhyrchu llaeth organig 2*. Iechyd y fuches laeth. IGER

Rheoli llyngyr main mewn systemau defaid organig. *Soil Association*

Rheoli tail ar ffermydd organig. ADAS ac Elm Farm Research Centre

## Taflenni a ffeithlenni[33]

Cyfres taflenni gweithgareddau COC (3)

Cyfres taflenni ffermydd arddangos Amcan 5b (11)

*Meddwl am fynd yn organig?* taflen

- FS1. Gwybodaeth/cyngor am drosi organig a Chyswllt Ffermio
- FS2. Gwybodaeth ychwanegol am y berthynas rhwng y Cynllun Ffermio Organig a Thir Gofal
- FS3. Cyfleoedd hyfforddiant mewn amaethyddiaeth a garddwriaeth organig
- FS4. Lladd-dai trwyddedig, proseswyr cig a phrynwyr anifeiliaid organig (wedi ei dynnu)
- FS5. Cofrestr ymgynghoryddion organig achrededig
- FS6. Hadau, porthiant a gwrteithiau
- FS7. Ffermio organig yng Nghymru
- FS8. Cylchoedd peiriannau
- FS9. Cyflwyniad i dystysgrifio organig ar gyfer ffermwyr a thyfwyr
- FS10. Taliadau cynhaliaeth (stiwardiaeth) organig
- FS11. Meincnodi gyda Chanolfan Organig Cymru
- FS12. Marchnata cig coch: gwerthu'n uniongyrchol
- FS13. Cynhyrchu llaeth organig: perfformiad ariannol

## Ymatebion ymgynghorol gan y Grŵp Strategaeth Organig/Y Ganolfan Organig[34]

Cartegena protocol on transboundary movement of GMOs (WAG, 15-10-02)

Thresholds for the adventitious presence of approved GMOs in seeds (WAG, 14-10-02)

Release of GMOs into the environment (WAG, 4-10-02)

Future of agri-environment schemes in Wales (ARD Committee, NAW, 17-09-02)

Mid-term review of Agenda 2000 (WAG, 17-09-02 and 15-05-03)

Future of the Tir Mynydd Scheme (WAG, 14-09-02)

Proposals for the national envelope under the sheep annual premium scheme (WAG, 16-07-02)

Policy review of organic farming (ARD Committee, NAW, 01-05-02)

Sustainable use of soils in Wales (Centre for Ecology and Hydrology, Bangor, 30-03-02)

Transmissible Spongiform Encephalopathy (Wales) Regulations, 2002 (WAG, 30-03-02)

Quinquennial review and future of UKROFS (DEFRA, 30-03-02)

New Nitrate Vulnerable Zones in Wales (WAG, 30-03-02)

Sale of unpasteurized drinking milk and cream (FSA, 30-03- 02)

A future direction for Welsh agriculture (NAW, 2001)

Deliberate release of GMOs (NAW, 2001)

[32] Gweler www.organic.aber.ac.uk/publications-cym.shtml

[33] Gweler www.organic.aber.ac.uk/library/factsheets/index.shtml

[34] Gweler www.organic.aber.ac.uk/policy-cym.shtml

AnReport_A4e copy 7/8/2003 11:06 AM Page 32

# Aelodaeth Grŵp Strategaeth Organig ac Is-Grwpiau 2002/03

| Grŵp Strategaeth Organig | Is-Grŵp polisi |
|---|---|
| Gareth Rowlands, ffermer, Cadeirydd<br>John Davies, Canolfan Bwyd Cymru<br>David Frost, ADAS, Cadeirydd yr Is-Grŵp Garddwriaeth<br>Andrew Jedwell, ymgynghorydd, Cadeirydd Grŵp, Llywio y Ganolfan Organig, aelod o Fwrdd UKROFS<br>Carwyn James, ffermwr llaeth<br>Bob Kennard, Graig Farm, Cadeirydd yr Is-Grŵp Marchnata<br>Nic Lampkin Cyfarwyddwr Canolfan Organig Cymru, Cadeirydd yr Is-Grŵp Polisi<br>Hilary Miller, Cyngor Cefn Gwlad Cymru<br>Dylan Morgan, NFU Cymru<br>Rhian Nowell-Phillips, FUW<br>Louise Owen, Clwb y Ffermwyr Ifainc<br>Jenny Poole, Organic Farmers & Growers<br>Lyn Powell, ADAS Pwllpeiran gynt<br>Nicola Salter, Asiantaeth yr Amgylchedd<br>Peter Segger, Bwydydd Fferm Organig<br>Alan Starkey, Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Phil Stocker, Soil Association<br>Kevin Thomas/Arwyn Davies/Delyth Davies, Awdurdod Datblygu Cymru | Nic Lampkin, Cyfarwyddwr Canolfan Organig Cymru, Cadeirydd<br>Gundula Azeez/Phil Stocker, Soil Association<br>Catherine Fookes, Sustain<br>Sue Fowler, Swyddog Polisi a Datblygu Canolfan Organig Cymru<br>Andrew Jedwell, ymgynghorydd, Cadeirydd grŵp Llywio Canolfan Organig Cymru<br>Peter Midmore, Prifysgol Cymru, Aberystwyth<br>Hilary Miller, Countryside Council for Wales<br>Dylan Morgan, NFU Cymru<br>Kevin Morgan/Selyf Morgan, Prifysgol Cymru, Caerdydd<br>Rhian Nowell-Phillips, FUW |
| **Is-Grŵp Marchnata** | **Is-Grŵp Garddwriaeth** |
| Bob Kennard, Graig Farm, Cadeirydd<br>Martin Cottingham, Soil Association<br>Arwyn Davies/Kevin Thomas, Awdurdod Datblygu Cymru<br>Nigel Elgar, Grŵp Cynhyrchwyr Graig Farm<br>Andrew Jedwell, Ymgynghorydd, Cadeirydd Grŵp Llywio Canolfan Organig Cymru<br>Sue Jones, Llanboidy Cheese<br>Neil Pearson, Canolfan Organig Cymru<br>Suzanne Rees, Bwydydd Fferm Organig<br>David Stacey, Llaethdy Rachel | Dave Frost, ADAS, Cadeirydd<br>Gareth Davies, HDRA<br>Ann Evans, Tyfwr<br>Liz Findlay, Tyfwr<br>Rob Haward, Soil Association<br>Roger Hitchings, Canolfan Ymchwil Elm Farm<br>Tony Little, Cydlynydd Gwasanaethau Ymgynghorol Canolfan Organig Cymru<br>Paul Robertshaw/ Mark Simkin, Coleg Garddwriaeth Cymru<br>Kevin Thomas, ADC<br>Alan Starkey, Llywodraeth Cynulliad Cymru |

*Gweler tudalen 21 ar gyfer grŵp llywio'r Ganolfan (is-grŵp gwybodaeth)*





*Lluniau: PCA, Martin Peck, Arvid Parry Jones*